


Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad Blynyddol

2017/18



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Rhan o gyfres o ddogfennau sy'n disgrifio ein sefydliad, y gwasanaethau a'r gofal rydyn ni'n eu darparu a'r hyn rydym yn ei wneud i gynllunio, gyflenwi a gwella gofal iechyd i chi yw ein Hadroddiad Blynyddol. Mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad yn 2017/18, yr hyn a gyflawnwyd, ein bwriadau ar gyfer parhau i wella'r flwyddyn nesaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro pa mor bwysig yw i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich syniadau i gyflenwi gwell gwasanaethau sy'n cyflawni eich anghenion mor agos ag sy'n bosibl i'ch cartrefi.

Llunnir ein blaenoriaethau gan ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n amlinellu ein hamcanion a'n cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Gallwch ddarllen y cynllun a darganfod mwy am ein Bwrdd Iechyd ar:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/88054/>

Mae ein Hadroddiad Blynyddol 2017/18 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** (dogfen ar wahân) sy'n rhoi manylion ein perfformiad yn erbyn ein targedau a'r camaua drefnwyd i gynnal neu i wella ein perfformiad. Gellir gweld hyn yn:
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** (dogfen ar wahân) sy'n rhoi manylion ein prif ofynion atebolrwydd a gwybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli ac yn rheoleiddio ein hadnoddau, yn canfod ac yn ymateb i'n risgiau ac yn cydymffurfio â'n trefniadau rheolaeth ein hunain. Gellir gweld hwn ar
<<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>>
- Ein **Datganiad Ariannol a'n Cyfrifon Blynyddol** (dogfen ar wahân) sy'n rhoi manylion ein gwariant a sut roedden ni'n cyflawni ein goblygiadau. Gellir gweld hwn yn:
<<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>>
- Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn llunio **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (dogfen ar wahân) gyda manylion y camau a gymerwyd gennym i wella ansawdd ein gwasanaethau. Mae ar gael yma:
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Cysylltwch â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y Pencadlys, Ysbyty Sant Cadog

Ffordd y Lodge

Caerllion, Casnewydd, NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym yn falch iawn o allu cyflwyno Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2017/18. Yn benodol, mae 2018 yn flwyddyn arbennig lle'r ydym yn dathlu pen blwydd y GIG yn 70 oed.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i symud ymlaen gyda'n Strategaeth Dyfodol Clinigol ac ail-lunio gwasanaethau gan gynnwys symud mwy o'n gwasanaethau allan i'n cymunedau ac yn nes at y bobl sydd angen eu defnyddio. Wrth i chi ddarllen drwy'r adroddiad hwn, gobeithio y byddwch chi'n gallu deall y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud a'r cynnydd a gyflawnwyd. Mae'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu yn ei 70ain blwyddyn yn wybyddus i bawb. Dyna'r rheswm dros addasu a pharhau i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu er mwyn sicrhau bod y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu yn parhau i dderbyn y gofal o'r safon uchaf posibl.

Yn ystod eleni, cymerwyd camau breision i adeiladu Ysbyty Prifysgol y Faenor yn Llanfrechfa, Cwmbrân. Mae'r ysbyty arbenigol a chritigol newydd hwn, a fydd yn agor yn 2021, yn rhan bwysig o'n Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae'n benllanw mwy na 10 mlynedd o gynllunio. Un rhan o ail-ddatblygu ein gwasanaethau'n ehangach yw'r ysbyty fydd yn golygu y byddwn yn darparu gofal rhagorol yn y lle cywir i bob claf dan ein gofal. Nod ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yw darparu gofal yn nes i gartrefi'r cleifion pan fydd hynny'n bosibl a gwella deilliannau i'n cleifion.

Nid yw'r ffocws ar ansawdd gofal a diogelwch cleifion erioed wedi bod yn well. Rydyn ni'n gweithio'n agosach gyda'n partneriaid - yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector - trwy ein trefniadau partneriaeth rhanbarthol ac yn cael llawer mwy o effaith gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth sylweddol. Hefyd, mae ymdrech barhaus i ddal i addasu a newid gwasanaethau i ateb y gwahanol alwadau a newidiadau technolegol.

Rydyn ni'n ail-lunio'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi ac yn ail-strwythuro ein hysbytai i ddylanwadu ar newid er gwell. Nid oes unrhyw amheuaeth bod hyn yn dod â'i heriau - galw am wasanaethau'n dal i gynyddu ac mae disgwyliadau'r cyhoedd a'n staff yn briodol yn uchel. Y mae mwy y gallwn ei wneud o hyd ac nid yw blaenoriaethu'r rhain yn hawdd. Fodd bynnag, mae'r dyfodol mor gyffrous. Gwyddom y bydd technoleg yn parhau i esblygu ac mae'n anhygoel meddwl am yr hyn a allai fod yn bosibl.

Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn amlinellu ein cynlluniau fel Bwrdd Iechyd. Nid yw aros yn llonydd yn opsiwn, nid ei fod wedi bod erioed. Mae gan y GIG y gallu i esblygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn gwneud ei orau posibl i gyflawni anghenion pobl a darparu'r gofal gorau posibl.

Roedden ni'n falch yn ystod y flwyddyn bod ein Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd (IMTP) wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn dangos ei hyder yn ein gallu i gyflenwi a datblygu ein gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf. Roedden ni hefyd yn cyflawni ein targed adennill costau ariannol statudol ar ein cyllideb o £1.1 biliwn. Mae hwn yn llwyddiant aruthrol o gofio'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG.

Ein hased pennaf o hyd yw ein staff a diolch i ymroddiad y rhain i gyd sy'n gweithio gyda ni, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae ein staff yn parhau i ymddangos ar restr fer gwobrau i ennill gwobrau ac i gael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am y gwaith rhagorol y maen nhw'n ei wneud. Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol gyda'n cymunedau lleol, cleifion, staff a phartneriaid er mwyn cynllunio a chyflenwi gwell gwasanaethau. Rydym wedi gwrando'n astud ar eu lleisiau gan eu bod yn ganolog i'r gwaith hwn.

Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a'r adborth rydyn ni'n eu cael gan y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ac rydym yn awyddus i glywed mwy gennych. Gallwch gael hyd i ni ar Facebook a Twitter, neu gallwch ddod i un o'n digwyddiadau lleol neu gyfarfodydd Bwrdd rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd.

Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae ein Datganiad Ansawdd Blynnyddol, Datganiad Rheolaeth Blynnyddol ac Adroddiad Blynnyddol Iechyd y Cyhoedd yn rhoi mwy o wybodaeth fanwl am y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud mewn prif adrannau. Gellir gweld yr holl ddogfennau hyn ar ein gwefan: **www.aneurinbevanhb.wales.nhs.uk**

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen yr adroddiad hwn a'i fod yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r cynnydd a wnaethom fel sefydliad ac mewn partneriaeth gydag eraill yn ystod 2017/18.



**Ann Lloyd
(Cadeirydd)**



**Judith Paget
(Prif Weithredwr)**

Ein Sefydliad

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac enillodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013.

Rydyn ni'n gwasanaethu poblogaeth o tua 639,000, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Gyda chyllideb o **£1.1biliwn**, rydyn ni cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a hefyd yn darparu rhai gwasanaethau i bobl De Powys.


Gallwch ddysgu mwy am ein sefyllfa ariannol drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd a'r Cyfrifon Ariannol 2017/18 (dolen isod):
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>




Bwrdd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol sy'n ein rheoli a hwy sy'n gwneud penderfyniadau am ein holl wasanaethau a'r gofal sy'n cael eu darparu yn ein hardal. Yn 2017/18, Cadeirydd y Bwrdd oedd Ann Lloyd a Judith Paget oedd yn gweithredu fel ein Prif Weithredwr.

Yn ystod 2017/18, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein gweledigaeth a'n prif flaenoriaethau;

- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf
- Sicrhau diogelwch, rhagoriaeth ac ansawdd ym mhob un o'n gwasanaethau bob amser
- Ymddiried yn ein staff a'u cefnogi i wneud y penderfyniadau cywir i gleifion a gwella gofal
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon i sicrhau ein bod yn darparu gofal cleifion o'r safon uchaf a gwerth am arian
- Gwella iechyd y cyhoedd drwy weithio gyda'n partneriaid i hybu ffordd o fyw iach a sicrhau bod argaeledd i wasanaethau ataliol, yn arbennig y rhai mewn meysydd o angen mwyaf.





Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd claf-ganolog, diogel, gonest a doeth. Mae'r Bwrdd yn gosod yr amcanion strategol, yn monitro cynnydd ac yn cytuno ar weithredu I gyflawni'r amcanion hyn. Mae'n sicrhau bod rheolaeth gywir a'i fod yn gweithio'n briodol ar draws y sefydliad.



Mae ystod eang o Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd. Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd sy'n eu cadeirio ac maen nhw'n darparu craffu, yn cynnal trafodaethau datblygu, asesu prif risgiau a monitro perfformiad yn erbyn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein sefydliad, ein pwyllgorau a'n strwythurau yn ein Hadroddiad Atebolrwydd a'n Datganiad Rheolaeth Blynnyddol (dolen isod):

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>



Gwerthoedd a Chenhadaeth y Bwrdd Iechyd

Fel Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n ymdrechu dros ragoriaeth ym mhob peth a gyflawnwn ac yn annog yn weithredol ddiwylliant o gefnogaeth, parch, gonestrwydd a gwaith tîm.

Mae hwn yn cael ei gydbwyso drwy asesu a herio gwasanaethau'n gyson i geisio gwella i gyfateb â, lle mae hynny'n bosibl, a rhagori ar safonau cenedlaethol, dysgu o lwyddiant a chanfod lle mae angen gwelliannau.

Mae'r uchelgais hwn hefyd yn cael ei yrru gan ymrwymiad i gydweithio ac ymgysylltu â chleifion, cymunedau, staff, sefydliadau partner a llywodraeth.

Credwn mewn rhoi pobl yn gyntaf, staff yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddiogelu cleifion, meithrin angerdd cryf dros wella wrth gyflenwi gwasanaeth a sicrhau bod hybu balchder wrth gyflenwi gwasanaethau'n hybu gwelliannau mewn profiadau cleifion.



Mae ein gwerthoedd a'n cynlluniau bob amser wedi bod â ffocws cryf ar gyflenwi gwasanaethau diogel a rhai o'r safon uchaf. Ceisiwn hefyd gyflawni a rhagori ar dargedau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â galw cynyddol ar wasanaethau iechyd wrth i boblogaethau gynyddu a phobl fyw'n hirach (gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod angen mynediad i wasanaethau iechyd).

Rydyn ni'n benderfynol i wireddu a chynnal ein gwerthoedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf er waetha'r heriau. Rydyn ni'n awyddus i fod yn agored a thryloyw gyda'n cleifion a'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu. Hefyd, rydym am wrando ar ac ymgysylltu â'n cymunedau, cleifion, staff a phartneriaid wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau mewn modd effeithlon.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein hymgysylltiad â'r cyhoedd ar Dudalen 55 yr adroddiad hwn.

Ein gwerthoedd a'n cenhadaeth:

- **Gweithio gyda chi i gael cymuned iachach**
- **Gofalu amdanoch pan fyddwch ein hangen**
- **Anelu at ragoriaeth ym mhob dim a wnawn**

Rheoli Risgiau

Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn newid yn barhaus. Gall rhai risgiau effeithio ar gyflawni ein hamcanion a rhaid i ni weithredu i'w lleddfu'n effeithlon.

Mae rheoli'n effeithlon y risgiau sy'n affeithio ar ein gwasanaethau clinigol yn ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu gofal iechyd diogel ac un o'r safon gorau i bobl leol a bod amgylchedd gwaith cefnogol yno ar gyfer ein staff.

Yn ystod 2017/18, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn gyda chefnogaeth buddsoddiad wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli risg drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blyneddol a'r Cyfrifon Ariannol 2016/17 drwy ddilyn y ddolen isod:
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Ein Cynllun

Bob blwyddyn, disgwylir i ni ddiweddarau ein **IMTP tair blynedd (Cynllun Tymor Canolig Integredig)**, sy'n amlinellu sut byddwn ni'n atgyfnerthu, moderneiddio a datblygu ein gwasanaethau i gyflawni anghenion iechyd a gofal pobl yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rhaid gwneud hyn o fewn yr arian a ddyrennir i ni gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ein IMTP tair blynedd cyntaf ym mis Mehefin 2015 ac mae cynlluniau dilynol wedi adeiladu ar y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o'n cynlluniau a gymeradwywyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



Gallwch ddarllen y cynllun llawn ar ein gwefan (dolen isod):

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/document/273937>

Rydym yn gweithio ar draws nifer o gymunedau, systemau a gwasanaethau; ni fydd ein huchelgais - **gwella iechyd a lles y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu mwy o ofal yn nes i gartrefi'r bobl** - yn llwyddo oni bai ei fod yn adlewyrchu anghenion ein cleifion a'i fod wedi'i alinio i gynlluniau a blaenoriaethau ein partneriaid. Rydym yn croesawu deddfiad Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2015. Mae hwn yn gam pellach tuag at uno agenda sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflenwi newid positif i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Gofal yn Nes Adref

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau gan gynnwys rhai amgen realistig i osgoi gorfod anfon cleifion i ysbytai. Buddsoddwyd llawer mwy mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i aros gartref a bod yn annibynnol.

Rydym wedi buddsoddi yn ein Timau Llesgedd ac Atal Syrthio. Hefyd, mae gennym fferyllwyr, gweithwyr cymdeithasol a dietegwyr mewn nifer o'n meddygfeydd i gefnogi'r practis i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr yn lleol.



Mae'r pwyslais yn llawer mwy ar ofal sylfaenol (gwasanaethau y tu allan i ysbyty) ac ar wasanaethau cymuned i roi gwell mynediad lleol i bobl gael diagnosis a thriniaeth. Ein nod yw darparu cymaint o ofal ag sy'n bosibl yn agos i'r cartref.

Mae ein cynllun yn parhau i gynnwys y camau nesaf ar gyfer ein Strategaeth Dyfodol Clinigol a'r rhaglen waith i gyflenwi'r strategaeth. Bydd Ysbyty Prifysgol y Faenor, canolfan gofal arbenigol a chritigol ar gyfer Gwent, yn atgyfnerthu ein gwasanaethau aciwt ac mae'n elfen graidd o'r system gofal iechyd diogel a chynaliadwy rydyn ni'n anelu ati ar gyfer y 600,000 o bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Rydyn ni, fel pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, yn wynebu heriau digyffelyb ar draws iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd poblogaethau sy'n heneiddio, niferoedd cynyddol o gyflyrau tymor hir a llw o broblemau iechyd ynghyd â chynnydd mewn disgwyliadau cleifion, adnoddau cyfyngedig a heriau gweithlu.

Ar wahân i'r heriau hyn, rydym wedi ymrwymo i drin bob claf dan ein gofal gyda pharch a charedigrwydd, gan gynnal urddas bob amser.

Rydyn ni'n hyderus bod ein cynllun yn rhoi'r Bwrdd Iechyd ar seiliau cadarn i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ddiogel, effeithlon a threfnus i gyflenwi'r

deilliannau gorau posibl i'r rhai sy'n eu defnyddio. Os byddwn yn llwyddiannus:-

- ✓ Bydd gennym lai o anghyfartaleddau iechyd gyda llai o farwolaethau cynamserol o gyflyrau fel canserau, trawiad ar y galon a strôc;
- ✓ Byddwn wedi gwella iechyd pobl o bob oed yn ein cymunedau;
- ✓ Bydd gennym berthynas mwy cyfartal rhwng pobl leol a gweithwyr iechyd proffesiynol gydag unigolion â mwy o reolaeth dros eu cyflyrau a mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau am y gofal sy'n gywir iddyn nhw;
- ✓ Bydd gennym wasanaethau sylfaenol, cymuned a gofal cymdeithasol cryfach ym mhob un o'n hardaloedd Rhwydwaith Gofal y Gymdogaeth gan symud o ofal rhagweithiol a chyflawni mwyafrif anghenion gofal traddodiadol y tu allan i ysbytai;
- ✓ Gan amlaf, bydd gwasanaethau asesu a thriniaeth frys yn cael eu cynnig ar yr un diwrnod heb fod angen aros dros nos mewn ysbyty; a
- ✓ Byddwn yn cyflenwi gwasanaethau arbenigol cynaliadwy cyn agor Ysbyty Prifysgol y Faenor yn 2021.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio'n arloesol ac mewn partneriaeth gyda'n staff, partneriaid a chymunedau lleol. Ar yr un pryd, byddwn yn cyflawni newid sy'n ein helpu'n gyson i gyflawni ein safonau ansawdd a pherfformiad o fewn amlen ariannol sy'n cynrychioli'r gwerth gorau i'r pwrs cenedlaethol.



Mynd ymlaen...

Cydnabyddwn yr heriau a'r risgiau sylweddol sydd o'm blaen ac wedi'u hadlewyrchu yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 - 2020/21, a gymeradwy-wyd gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn monitro ac yn craffu'n fanwl ar gyflawniad ein cynlluniau gan sicrhau bod y buddion yn cael eu gwireddu gan ein dinasyddion i wneud y gorau o'r newidiadau.

Mae'r **dudalen ganlynol** yn amlinellu ein 10 Cynllun Newid Gwasanaethau (SCPs) a ddatblygwyd i'n helpu i gyflenwi ein Cynllun Tair Blynedd ac i barhau i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n cleifion

Ein 10 Cynllun Newid Gwasanaethau (SCPs)

2016 to 2019

**1. Gostwng Anghydraddoldebau
Iechyd**



2. Atal a Gwella Iechyd y Bobl



**3. Gofal Sylfaenol a
Gwasanaethau yn y Gymuned**



**4. Integreiddio – Mynd â Gofal yn
Nes at Gartrefi**



5. Rheoli Cyflyrau Cronig



6. Gofal Iechyd Parhaus



7. Cynnaladwyedd Gwasanaethau



**8. Iechyd Meddwl ac Anabledau
Dysgu**



9. Gofal Brys ac Argyfwng



10. Gofal wedi'i Drefnu



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol yn barod o fewn pob un o'r 10 SCPs. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau i ddatblygu ymhellach y cynlluniau a symud ymlaen gyda'r cyflenwi. Gellir gweld enghreifftiau o rai o'r datblygiadau newydd a chyffrous ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Rydyn ni hefyd wedi cyflawni ystod o weithgareddau ail-gyflunio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i gyflenwi gwell gwasanaethau i ateb anghenion cleifion. **Gallwch ddarllen am rai o'r gweithgareddau hyn yn adran nesaf yr adroddiad hwn o dan y teitl 'Gofalu amdano Chi'.**

Credwn fod tystiolaeth o welliant ar draws ystod o'n gwasanaethau. Er hynny, sylweddolwn fod rhai heriau go iawn o hyd i gyflawni galw am wasanaethau, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau gofal heb ei drefnu/ brys.

Gofalu amdanoch Chi

Yn ystod 2017/18, gwelwyd nifer o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ein gwasanaethu. Mae'r gwelliannau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar safon uchel y gofal rydyn ni'n ei ddarparu i'n cleifion a'u teuluoedd.

Isod, gwelir rhai enghreifftiau o'r gwelliannau a wnaed:



Ebrill 2017

Agor Canolfan Iechyd Meddwl Newydd i Bobl Ifanc

Agorwyd canolfan cleifion allanol Iechyd Meddwl newydd yn benodol wedi'i drefnu i helpu plant a phobl ifanc yng Ngwent.

Agorwyd 'Dyffryn Gwyn' - yn swyddogol gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru. Datblygwyd y cyfleuster newydd hwn yn Ysbyty Sant Cadog Caerllion gyda'r weledigaeth i wella profiad a gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl ifanc (CAMHS) o fewn y Bwrdd Iechyd ymhellach.



Cynlluniwyd y ganolfan cleifion allanol ar ei newydd wedd gan blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau CAMHS. Ym mhob cam o'i datblygiad, rhoddwyd cyfle i'r bobl ifanc lunio'r ganolfan newydd gan gynnwys mynegi barn ar y cynllun, dewis yr enw a dewis geiriau caneuon sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw i ymddangos ar waliau'r ganolfan.

Mai 2017

Agor Unedau Mân Anafiadau a Gofal Babanod newydd yng Nghasnewydd

Ymwelodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet ag Ysbyty Brenhinol Gwent i agor y ddau gyfleuster newydd yn swyddogol.



Bydd yr Uned Mân Anafiadau newydd a'r Uned Newydd-anedig a adnewyddwyd yn ddiweddar gydag arian Llywodraeth Cymru, yn gwella'r gofal a'r cyfleusterau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu yn yr ysbyty.

Dechreuodd y Bwrdd Iechyd ar waith ail-ddatblygu ac ehangu Uned

bresennol Mân Anafiadau'r Adran Achosion Brys ym mis Ionawr 2016. Mae'r Uned Mân Anafiadau newydd yn cynnwys adran asesu a thrin i leddfu'r pwysau ar yr Adran Achosion Brys. Mae mwy na 82,000 o gleifion yn mynychu'r Adran Achosion Brys bob blwyddyn gydag ystod o anhwylderau sydd angen triniaeth ar frys.

Dechreuwyd ar y gwaith o ailwampio'r Uned Newydd-anedig David Ferguson ym mis Medi 2016 gan fod angen diweddu'r uned bresennol i gyflawni safonau cenedlaethol. Sefydlwyd uned dros dro hyd nes cwblhau'r uned bresennol a symudwyd y babanod yn ôl i'r uned ar ei newydd wedd ym mis Ebrill 2017.

Datblygwyd y ddwy uned yn unol â Strategaeth Dyfodol Clinigol ehangach y Bwrdd Iechyd i foderneiddio gwasanaethau iechyd yng Ngwent.



Mehefin 2017

Lansio Cynllunio Uwch Ofal (ACP)

Lansiwyd model newydd cyffrous yn hyrwyddo Cynllunio Uwch Ofal ym mis Mehefin. Dull o edrych ymlaen yw Cynllunio Uwch Ofal. Mae'n disgrifio'r hyn sy'n bwysig i chi ac yn sicrhau bod pobl eraill yn gwybod beth yw eich dymuniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ymwneud â'ch helpu chi i fyw'n dda at ddiwedd eich oes.

Datblygwyd y model drwy Strategaeth Gofal Lliniarol Gwent a'i greu mewn modd cydweithredol gyda'r partneriaid canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Hosbis y Cymoedd
- Gofal Hosbis Dewi Sant
- Macmillan
- Byw Nawr



Nod yr achlysur oedd rhannu'r cynnydd, datblygu, gwaith integredig llif gwaith ACP a chodi ymwybyddiaeth o Fodel Trebl E ACP. Mae'r model hwn yn ymgorffori tair elfen cyd-ddibynnol ond ar wahân sef 'addysg', 'ymgysylltu' a 'grymuso'.

Gorffennaf 2017

Gwaith adeiladu'n dechrau ar ysbyty newydd yng Nghwmbrân

Torrodd Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cabinet, Vaughan Gething AC y dywarchen gyntaf ar gyfer adeilad £350 miliwn ysbyty newydd sbon yn Llanfrechfa, Cwmbrân.



Bydd y rhaglen anferthol o waith yn gweld Ysbyty Prifysgol y Faenor - canolfan gofal arbenigol a chritigol - yn cael ei ddatblygu ar safle Maenor Llanfrechfa dros y blynyddoedd nesaf.

Cadarnhawyd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ysbyty 471 gwely

newydd ym mis Hydref 2016 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl agor ei ddrysau i gleifion yn ystod Hydref 2021.

Mae'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yn ffurfio rhan allweddol o Strategaeth Dyfodol Clinigol ehangach y Bwrdd Iechyd a lansiwyd yn 2004, i foderneiddio gwasanaethau iechyd yng Ngwent. Hefyd, bydd yn creu amgylchedd hynod arbenigol i gefnogi triniaeth cleifion sydd angen gofal brys cymhleth ac aciwt. Hefyd, bydd gan yr ysbyty rôl ranbarthol allweddol i weithio fel rhan o'r system ysbytai aciwt mawr ehangach ar draws de Cymru.

Cynlluniau radiotherapi a chanser ar gyfer Ysbyty Nevill Hall

Lansiwyd cynlluniau i ddatblygu uned radiotherapi lloeren a chanolfan ganser leol yn Ysbyty Nevill Hall.

Y llynedd, nodwyd yr ysbyty fel y safle gorau ar gyfer uned radiotherapi lloeren i gyfategoli'r gwaith a wneir yng Nghanolfan Ganser Felindre, Caerdydd gan gynyddu galluedd a galluogi nifer o gleifion i gael triniaeth yn nes adref.



Mae achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd yn cael ei lunio a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael cymeradwyaeth ariannol.

August 2017

Myfyrwyr chweched dosbarth yn cael cymorth i ddilyn cwrs meddygaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn helpu myfyrwyr Chweched Dosbarth ar draws Gwent i baratoi ar gyfer gyrfa mewn meddygaeth.

Mae 12 Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) y Bwrdd Iechyd wedi darparu arian ar gyfer myfyrwyr i ddilyn cwrs a gynhelir mewn partneriaeth



gyda Mediprep UK, sydd fel arfer yn cynnal cyrsiau yn Llundain neu Fanceinion yn unig. Mae'r fenter hon yn ffurfio rhan o ymgyrch ehangach gan y Bwrdd Iechyd i recriwtio mwy o Feddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol iechyd cyswllt i helpu i ddarparu gwasanaethau Gofal Sylfaenol cynaliadwy ar draws Gwent.

Mae 25 o ddarparwyr addysg chweched dosbarth yng Ngwent ac o'r rhain roedd 20 ysgol yn anfon myfyrwyr ar y rhaglen MediPrep. Roedd cyfanswm o 43 o fyfyrwyr yn mynychu. Ynghynt yn y flwyddyn, cynhaliwyd y sesiwn MediPrep cyntaf gyda myfyrwyr yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac roedd gwerthusiad o'r diwrnod yn dangos na fyddai 95% o'r myfyrwyr wedi dilyn y rhaglen yn bersonol os na fyddai wedi'i drefnu a'i ariannu gan y Bwrdd Iechyd.

Medi 2017

Triniaeth newydd ar gyfer cerrig yn y chwarren boer

Mae'r Bwrdd Iechyd yn arloesi triniaeth newydd arloesol ar gyfer cerrig yn y chwarren boer.

Bydd y gwasanaeth newydd cyffrous sy'n cael ei gynnal gan adran Llawfeddygaeth Enol-Wynebol y Bwrdd Iechyd, yn helpu cleifion sy'n cael problemau gyda'u chwarennau poer. Mae'n galluogi cleifion i gymryd mantais o dechnoleg arloesol ac osgoi llawfeddygaeth drom ac arhosiad mewn ysbyty. Yn lle hyn, gallan nhw gael triniaeth drwy apwyntiadau cleifion allanol.



Ar hyn o bryd, yr adran Enol-Wynebol yw'r unig le yng Nghymru sy'n defnyddio'r dechnoleg i wneud diagnosis a thrin problemau'r chwarren boer fel cerrig o fewn y chwarren. Yr adran hon yn Ysbyty Brenhinol Gwent yw'r cyntaf yng Nghymru i arloesi'r technegau hyn a chynnig y gwasanaeth hwn i gleifion.

Nodwyd y tîm Llawfeddygaeth Enol-Wynebol hwn yn ddiweddar gan Gomisiwn Bevan fel Enghraifft Technoleg Iechyd 2018 am y gwasanaeth arloesol newydd hwn.

Plant ysgol yn dysgu am yrfaedd gyda'r Bwrdd Iechyd

Agorodd y Bwrdd Iechyd ei ddrysau i blant ysgol Gwent er mwyn iddyn nhw ddysgu mwy am yrfa o fewn y GIG.



Gwelwyd cannoedd o blant ysgol leol yn ymweld â phencadlys y Bwrdd Iechyd yng Nghaerllion lle'r oedd staff wedi gosod tua 20 stondin wybodaeth i arddangos gwahanol adrannau gwaith, o lawfeddygaeth i radioleg i gyfleusterau. Dyma'r achlysur gyrfaedd cyntaf i ysgolion.

Cafodd y plant gyfle i sgwrsio gyda staff a chymryd rhan mewn arddangosfeydd rhyngweithiol ar y diwrnod.



Hydref 2017

Cynllun tai'n helpu pobl i aros adref

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda Chyngor Torfaen a Thai Bron Afon mewn cyd-brosiect i'w gwneud hi'n haws i bobl ag anghenion ychwanegol fyw yn eu cartrefi eu hunain.



Adeiladwyd chwe byngalo newydd ym Mlaenafon fel rhan o gynllun £470,000 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Cydlynwyd y datblygiad a'i drefn gan dîm y rhaglen 'Mewn Un Lle' yng Ngwent sy'n rhwydwaith cydweithio wedi'i ariannu gan y Bwrdd Iechyd. Roedd yn casglu ynghyd adrannau iechyd, gofal cymdeithasol a thai.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu cefnogaeth 24 awr y dydd i drigolion y byngalos.

Tachwedd 2017

Menter gyfeillio'n dod â chenedlaethau at ei gilydd

Mae partneriaeth a ddatblygwyd yn ddiweddar wedi casglu ynghyd plant ysgol a chleifion hŷn sy'n dwyn buddion i gymunedau lleol.

Mae'r fenter pontio'r cenedlaethau gyda disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Griffithstown yn ymweld ag unedau ar gyfer cleifion hŷn, wedi profi'n hynod lwyddiannus gyda deilliannau positif.

Dengys gwaith ymchwil y gall pawb elwa pan fydd cenedlaethau'n dod ynghyd. Mae'r fenter hon yn unol â Pholisi Iechyd Cymru ac mae wedi'i hyrwyddo gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu sesiynau Ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia i holl athrawon yr ysgol a disgyblion Blwyddyn 6. Gall gweithgareddau pontio'r cenedlaethau fel hyn leihau unrhyw stereoteip negyddol y person hwn, lleihau unigrwydd ac ynysu a gwella lles a synnwyr hunanwerth pobl.

Mae gweithgareddau yn ystod ymweliadau wedi ymestyn o ddysgu sut i chwarae dominos, celf, crefft, dod i'ch adnabod', siarad, canu, dawnsio ac addurno fframiau Zimmer gyda'r cleifion.

Mae cynllun tîm aml-ddisgyblaeth yn awr yn cael ei lunio i gynnal a gwella'r fenter hon. Mae staff wedi siarad â'r plant am eu swyddi i wella eu dealltwriaeth o'u rolau gyda rhai'n dweud eu bod am fod yn nyrs neu feddyg.

Rhagfyr 2017

Tredeg ar barod i gael 'uwch-feddygfa' iechyd a gofal cymdeithasol o fewn pedair blynedd

Cymeradwy-wyd cynnig i adeiladu canolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd yn Nhredegar gydag arian gan Lywodraeth Cymru.

Datblygwyd achos busnes ar gyfer y ganolfan newydd gan y Bwrdd Iechyd ac fe'i gymeradwy-wyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn debyg i'r Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Rhymni (y llun).



Bydd y ganolfan yn lletya meddygon teulu ac ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill a rhagamcanir y bydd yn agor ei drysau o fewn pedair blynedd.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent, Meddygon Teulu'r dref a phobl eraill sydd â diddordeb i ddatblygu'r cynllun.

Ionawr 2018

Cyflogi Cydlynwyr Rhyddhau Penodol i helpu i gadw'r ysbytai i redeg yn esmwyth

Yn 2017/18, mae Cydlynwyr Rhyddhau wedi dod yn rhan fechan ond yn gynyddol hanfodol o'n gweithlu ysbytai.

Aelodau staff anghlinigol yw'r Cydlynwyr Rhyddhau gyda'r dasg benodol i gynllunio rhyddhau neu drosglwyddo cleifion - proses sy'n dechrau pan fyddan nhw'n dod i mewn. Maen nhw'n paratoi'r ffordd i gleifion fynd adref drwy gynnal amrywiaeth o dasgau - o sicrhau bod pecynnau gofal a chefnogaeth ar gael i gleifion, hyd at drefnu iddyn nhw gael eu rhyddhau ar amser priodol o'r diwrnod.



Maen nhw hefyd yn helpu i drefnu trosglwyddiadau, er enghraifft os bydd claf angen cyfnod o adsefydlu mewn ysbyty gwahanol.



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi arwain y ffordd i wneud y rôl yn un benodol gan ryddhau staff nyrsio ar wardiau meddygol er mwyn iddyn nhw allu canolbwyntio ar gynnis gofal.

Blwyddyn yn ôl, roedd cleifion hŷn yn gorfod aros am tua phythefnos mewn ysbyty ar gyfartaledd ond ers cyflwyno'r

Cydllynwyr Rhyddhau, mae hyn wedi gostwng o ryw bedwar diwrnod.

Chwefror 2018

Cleifion Gofal Dwys yn elwa o feiciau ochr gwely newydd

Mae beiciau ymarfer ochr gwely newydd yn helpu cleifion yn Uned Gofal Dwys (ICU) Ysbyty Brenhinol Gwent i allu dod yn ôl ar eu traed.



Mae'r ddau feic newydd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl treial llwyddiannus, yn galluogi cleifion i ymarfer eu breichiau a'u coesau wrth ymyl eu gwely. Cynted ag y gallan nhw, anogir cleifion i ddefnyddio'r beic i helpu iddyn nhw wella.

Mae'r beiciau yn ICU yn rhan o brosiect gwella'r Bwrdd Iechyd. Po gyntaf y gallwn ni gael pobl i symud, gorau oll. Bydd defnyddio'r beiciau hyn yn gynnar yn help i gadw mas cyhyrau cleifion ICU a

hefyd eu helpu i ddal i symud ac ennill y nerth i ddechrau cerdded ynghynt.

Roedd y cyn glaf Gofal Dwys, Dave Jackson, (gweler ei lun) sydd erbyn hyn, yn parhau â'i adsefydlu yn Ysbyty Cymuned Cas-gwent, yn elwa o ddefnyddio'r beic yn ystod ei arhosiad 10 wythnos yn yr Uned Gofal Dwys.



Mawrth 2018

Staff y Bwrdd Iechyd yn disgleirio yn ystod eirfa'r gaeaf

Profodd staff sy'n gweithio ar draws bob adran o fewn y Bwrdd Iechyd eu bod yn barod i fynd y filltir ychwanegol i barhau i ddarparu gofal cleifion rhagorol yn ystod cyfnod difrifol yr eira ym mis Mawrth.

Kerry Phillips @pillipskerry040 · Mar 4

Never have I been so proud of my work family @AneurinBevanUHB @midwifedeb50 @jaynebeasley, above and beyond does not even begin to describe the effort they have put in to care for women, babies and their families over the past few days #NHSsnowHeroes #NHSheroes ❤️😊



Becky Westbury @MidwifeBec

Extra night shift to help midwives at @AneurinBevanUHB RGH who have been there for 36hrs+, such fab teamwork, care and dedication, and a few 4am laughs too 😂 #midwifelife #BeastFromTheEast #ThankYouNHS



15



34



Roedd gwasanaethau Ysbytai'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned a Gofal Sylfaenol yn parhau i redeg yn dda yn ystod y tywydd gwael. Bu'n rhaid canslo rhai apwyntiadau a thriniaethau yn ystod y cyfnod ond gweithiodd y staff yn galed i sicrhau bod ein cleifion yn ddiogel ac yn derbyn gofal da.



Hefyd, roedd y Bwrdd Iechyd yn gwneud trefniadau i helpu staff i fynd a dod o'u gwaith yn ddiogel.

Diolchodd Judith Paget, y Prif Weithredwr, i'r staff drwy ddweud:

"Treuliais y rhan fwyaf o'r pedwar diwrnod gwaith diwethaf yn gweithio yn

Just a few of my work colleagues pulling an all nighter so they can work their shift at Nevill Hall hospital. Not only have they just finished a 12 hour shift all have children/families & stayed in 2help look after other people's family members #nhsheroes #3/3nhh



13

96



212



yr hyb ochr yn ochr â chydweithwyr anhygoel, yn cydlynu ein gweithrediadau ac yn gwneud trefniadau i sicrhau y gallai ein staff a'n cleifion gyrraedd ein hadeiladau'n ddiogel. Gobeithio bod y rhai fu'n gweithio drwy'r cyfnod hwn, yn teimlo i chi dderbyn y gofal dyladwy - a hoffwn ddiolch o waelod calon am yr

holl waith, ymdrech ac anhunanoldeb a ddangoswyd gennych.

“Tra yn yr hyb, clywais gynifer o enghreifftiau o dosturi, sgil, penderfyniad ac arwriaeth oedd yn gwneud i mi deimlo’n ostyngedig a balch mai fi yw eich Prif Weithredwr. O staff oedd yn cerdded milltiroedd drwy’r eira i gyrraedd y gwaith, gan roi eu diogelwch eu hunain mewn perygl, i deithio gyda chleifion gan aberthu amser gyda’u teuluoedd i gysgu yn ein hadeiladau dros nos. Roeddwn yn hynod falch o ymdrechion ein staff.”

Cyflwynodd Ann Lloyd, ein Cadeirydd, hefyd ei diolchiadau gwresog ar ran y Bwrdd. Roedd cleifion a’r cyhoedd hefyd yn rhuthro i ddiolch i staff y Bwrdd Iechyd. Ar y cyfryngau cymdeithasol yn unig (Twitter a Facebook), dywedodd Tîm Cyfathrebu’r Bwrdd Iechyd bod trawiadau’n cyrraedd cyfanswm o 950,000 gwaith yn ystod y tywydd garw. Hoffwyd ein trawiadau, neu cafwyd sylwadau neu fe’u rhannwyd mwy na 30,000 o weithiau. Roedd y sylwadau’n llawn teimladau positif wedi’u cyfeirio at ein staff a’n gwasanaethau.

YYF Minor Injury Unit staff Keep the service running, walking to work and sleeping over. #ThankYouNHS



Ymgyrch i hyrwyddo amrywiaeth o wasanaethau Gofal Sylfaenol

Lansiodd y Bwrdd Iechyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am amrywiaeth o wasanaethau Gofal Sylfaenol sydd ar gael yn ein cymunedau.

Y nod oedd amlygu bod llawer o wahanol weithiwr proffesiynol gofal iechyd erbyn hyn a all helpu i ofalu am iechyd cleifion - nid eu Meddygon Teulu’n unig.

Roedd yn pwysleisio y gall dewis y gwasanaeth gofal iechyd cywir arbed amser ac yn aml ei gwneud hi’n haws i weld rhywun. Yn aml, ni fyddwch angen apwyntiad a byddwch chi’n cael eich trin gan y gweithiwr proffesiynol sydd fwyaf addas i’ch anghenion chi.



Pharmacist

I can provide you with expert advice and over the counter treatment for a range of minor ailments, including:

- Sore throat
- Indigestion
- Headlice
- Backache
- Nappy rash
- Dermatitis
- Diarrhoea
- Constipation
- Chicken pox
- Hayfever

#MyLocalHealth

Nid yn unig bydd cleifion yn derbyn gwasanaeth ynghynt ac yn cael gwell profiad, byddan nhw hefyd yn rhyddhau amser gwerthfawr Meddyg Teulu i ostwng amseroedd aros i'r rhai sydd wir ei angen.

Gweler drosodd i weld poster o'r ymgyrch neu i gael mwy o wybodaeth, ewch I <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/95394>



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Deintydd

Nid oes angen mynd at y Meddyg Teulu gyda'r ddannodd pan allwch ddod i fy ngweld i.

Dentist

There's no need to go to the GP with tooth ache when you can come and see me.

Meddyg Teulu

Rwyf yma bob amser i helpu os teimlwrch nad oes yr un o'r gwasanaethau eraill sydd ar gael yn eich cymuned yn gallu darparu'r hyn y mae arnoch ei angen.

GP

I'm always here to help if you feel that none of the other services available in your community are able to provide what you need.

Achosion Brys

Cofiwch: mae'n rhaid ichi ffonio 999 neu fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys os ceir unrhyw waeledd neu ddamwain ddifrifol.

Emergency

Remember: you must call 999 or go to A&E for any serious illness or accident.

Fy Nhaith Iechyd Leol

Mae yna lawer o wasanaethau lleol ar gael i'ch helpu i ymdopi â'ch iechyd a'ch lles.




#MyLocalHealth



#ChooseWell

There's lots of local services available to help you manage your health and wellbeing.

My Local Health Journey



Optegydd

Rwyf yn arbenigwr ar lygaid, ac felly fe allaf helpu i drin llawer o broblemau cyffredin.

Optician

I'm an expert with eyes so can help and treat lots of common problems.

Fferyllydd

Gallaf ddarparu cyngor arbenigol ichi a thriniaeth dros y cownter ar gyfer ystod o fân anhwydebau.

Pharmacist

I can provide you with expert advice and over the counter treatment for a range of minor ailments.

Llinell Gymorth Ffôn Galw Iechyd y GIG

Ffoniwch ar 0845 4647 neu ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk

NHS Direct Telephone Helpline

Call on 0845 4647 or visit www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Edrych i'r dyfodol - ein Rhaglen Dyfodol Clinigol

Beth yw Dyfodol Clinigol?

Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn amlinellu sut rydyn ni'n symud tuag at well cydbwysedd gofal drwy:

- gyflenwi'r rhan fwyaf o ofal yn agos i'r cartref;
- greu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnosis a thriniaeth gyffredinol; a
- chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol mewn lleoliad pwrpasol – Ysbyty Prifysgol y Faenor.



Gofalu amdanoch chi a'ch dyfodol
Caring for you and your future



Gwasanaeth Sylfaenol a Chymuned yw calon y model ac mae'n ganolog i ddatblygu perthynas newydd gyda chleifion fel partneriaid/cyd-gynhyrchwyr i ddiogelu, cynnal a gwella eu hiechyd a'u lles eu hunain. Elfen graidd o'n strategaeth yw buddsoddi mewn gwasanaethau sylfaenol, cymuned a gofal cymdeithasol a'u


hatgyfnerthu i greu'r galluedd i gefnogi a thrin cleifion yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

Mae enghreifftiau o fuddsoddiad o'r fath dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys ein Gwasanaethau Nyrsys Ardal 24 awr, Cynlluniau Parhau'n Iach ar gyfer dinasyddion hŷn, timau adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol cymuned integredig sy'n galluogi cleifion i gael eu hasesu a'u cefnogi yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd Ysbyty Prifysgol Y Faenor yn chwarae rôl gritigol gan wella darpariaeth gwasanaethau a deilliannau clinigol; cynnal gwasanaethau bregus drwy eu cadarnhau mewn un safle. Bydd yn gwella profiad cleifion ac yn darparu cyfleusterau modern ar gyfer cyflenwi gofal. Ynghyd â'n rhwydwaith ysbytai cefnogi, bydd cleifion yn gallu cael gwell mynediad i ofal iechyd aciwt ac arbenigol.



Mae'r graffeg isod yn amlinellu'r model o ofal iechyd rydyn ni'n anelu ato:



Cynnydd yn 2017/18

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhaglen Dyfodol Clinigol wedi symud ar gyflymder sylweddol o safbwynt adeiladu tîm gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol ynghyd â gyrru agenda'r rhaglenni ymlaen ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r rhaglen hon wedi casglu ynghyd pob maes o'r sefydliad ac mae'n gweithio'n helaeth i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a staff mewnol. Er enghraifft, mae'r rhaglen wedi cydlynu 20 sesiwn ymgysylltu â staff dros deg safle i ledaenu'r neges ynghyd â gwrando ac adrodd yn ôl am unrhyw gwestiynau neu bryderon.



Amserlen

2004/5 Strategaeth Dyfodol Clinigol Gwent yn cynnig tri ysbyty newydd gan gynnwys Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC).

2008 Ysbytai llai yng Nglyn Ebwy ac Ystrad Mynach yn cael caniatad i symud ymlaen.

2012 Cynlluniau cyntaf safle Plasty Llanfdechfa yn cael eu datgelu.



2013 Achos busnes amlinellol yn cael ei gymeradwyo. Nodi SCCC fel 'pwynt sefydlog' yn rhaglen De Cymru.

2014 Caniatad cynllunio wedi'i roi.

2015 Cymeradwyaeth ar gyfer dymchwel hen adeiladau ar y safle.

2016 Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd, Lles a Chwaraeon yn rhoi caniatad i ddechrau adeiladu.

2017 Gwaith adeiladu'n dechrau ar yr ysbyty newydd.

Redesigning Clinical Pathways

The programme has now formed into a number of defined workstreams with a clear purpose and direction. This incorporates a vital workstream to redesign and improve clinical treatment pathways to ensure that care is delivered both closer to the home and in an efficient and patient-focused way at all times. A large number of workshops and collaborative forums have been run to bring staff and patients together to help define how we operate over the coming years.

Ysbyty Prifysgol y Faenor (Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol)

Un o arwyddion mwyaf gweladwy cynnydd o fewn y Rhaglen Dyfodol Clinigol yw adeiladu Ysbyty Prifysgol y Faenor 471-gwely fydd yn uwch ganolfan gofal arbenigol a chritigol wedi'i leoli ar safle Llanfdechfa ger Cwmbran.

Bydd y gwasanaethau critigol hyn o ran natur yn symud o Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall i'r ysbyty newydd. Bydd y gwasanaethau fydd yn symud yn cynnwys yr Adran Achosion Brys (D&A), Gofal Dwys, Cardioleg, ein Huned Strôc Uwch-aciwt, cleifion paediatreg a genedigaethau risg uchel. Ni fydd unrhyw glinig cleifion allanol yn Ysbyty Prifysgol y Faenor.

Mae'r lluniau isod, a gafwyd gan y contractwyr Laing O'Rourke, yn dangos y cynnydd sydyn wrth adeiladu'r ysbyty newydd:



Drwy wahanu triniaeth gritigol oddi wrth ofal a drefnwyd yn arferol, gallwn sicrhau bod staff hynod arbenigol ar gael yn Ysbyty Prifysgol y Faenor 24/7 ar gyfer cleifion sydd â chyflwr sy'n bygwth bywyd. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddatblygu ein holl ysbytai cyffredinol lleol i gynnal gofal mwy anghritigol dros y blynyddoedd nesaf.

Cymerdawy-wyd y cyllid ar gyfer yr ysbyty gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016 a dechreuwyd ar y gwaith ar y safle yn ystod mis Gorffennaf 2017. Ers y cyfnod hwnnw, mae llawer o'r gwaith sylfaen hanfodol wedi'i gwblhau. Drwy weithio'n agos gyda'r contractwr, Laing O'Rourke, mae'r Tîm Prosiect Ysbyty Prifysgol y Faenor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cynllun y safle'n addas i bwrpas ac yn gwasanaethu anghenion y cleifion yn y dyfodol. Mae llawer o'r adeiladu modiwlaid yn digwydd oddi ar y safle gan olygu y bydd y broses yn cynyddu'n gyflym iawn.




Yn hanfodol i lwyddiant yr ysbyty newydd a'n gwasanaethau ehangach - sy'n awr yn cael eu hail-lunio fel rhan o'r Rhaglen Dyfodol Clinigol - bydd cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd, er mwyn iddyn nhw ddeall sut i gael y mynediad gorau i wasanaethau yn y dyfodol. Am beth amser yn awr, mae'r Bwrdd Iechyd

wedi bod yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol drwy Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, grwpiau cymuned, Cyngorau Lleol, Cyngorau Cymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol ar draws Gwent.

Mae Tîm Prosiect Ysbyty Prifysgol y Faenor hefyd wedi ceisio sicrhau nad yw'r gwaith a wnaed ar y safle yn cael effaith negyddol ar drigolion lleol.

Cynhaliwyd nosweithiau agored yn rheolaidd yn swyddfeydd y safle i alluogi'r cyhoedd yn gyffredinol ar draws Gwent i ddod i mewn a gofyn cwestiynau wyneb yn wyneb. Bydd y deialog dwyffordd hwn yn parhau gyda'r trigolion lleol sy'n byw'n agos at y safle adeiladu.





Dyma 10 peth y dylech wybod am Ysbyty Prifysgol y Faenor...

1. Mae eich Ysbyty Prifysgol y Faenor yn ysbyty hynod fodern newydd



2. Mae'r gwaith adeiladu'n dechrau yn ystod haf 2017



3. Bydd yn cael ei hadeiladu ar safle Plasty Llanfdechfa, ger Cwmbran



4. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £350m i'w hadeiladu



5. Bydd 471 gwely ar gyfer cleifion



6. Bydd yr ysbyty'n agor ei ddysau i gleifion yn 2021



7. Bydd llain hofrenyddion yno ar gyfer ambiwlansys awyr



8. Bydd mwy na 40 gwasanaeth arbenigol gwahanol yn y SCCC



9. Bydd arbenigwyr yn cydweithio o dan un to i greu canolfan ragoriaeth



10. Ni fydd unrhyw glinigau cleifion allanol yn yr ysbyty newydd – byddan nhw'n aros yn ein hysbytai presennol



I gloi

Yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd ein rhaglen Dyfodol Clinigol yn newid gêr gyda phwyslais mawr a chydweithio ar bob agwedd o'r trawsnewid – nid dim ond yr ysbyty newydd.

Wrth i Ysbyty Prifysgol y Faenor barhau i gael ei adeiladu yn ystod 2018, bydd y timau cynllunio'n parhau i lunio a diwygio'r modelau gofal arfaethedig er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaeth safonol i'w holl gleifion.

Dechreuwyd ar yr adeiladu yn ystod haf 2017, gan ddisgwyl gorffen yn 2021. Bwriedir agor yr ysbyty i gleifion yn ystod hydref 2021.

Llwyddiannau Staff

Datblygu Ein Staff

Cynhaliwyd ein seithfed Seremoni Gwobrau Cydnabod Staff dydd Gwener 15^{fed} Rhagfyr yng Nghanolfan Christchurch, Casnewydd. Roedd mwy na 300 o aelodau'r staff yn mynychu'r digwyddiad oedd yn dathlu llwyddiannau staff ar draws y Bwrdd Iechyd.

Arweinyddion yr achlysur oedd Ann Lloyd, Cadeirydd a Judith Paget, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Cafwyd ymateb gwych i'r gwobrau a oedd wedi cael 188 o enwebiadau - dim byd tebyg o'r blaen. Roedden ni hefyd yn falch o ystod a safon yr enwebiadau ar gyfer y gwobrau. Cyflwynwyd categori newydd, "Gwobr Dewis y Cleifion".



Roedd y gwobrau'n cydnabod staff a thimau ar draws y sefydliad oedd wedi cyflenwi gwasanaethau ac wedi dangos arweiniad o'r safon uchaf.

Enillwyr y gwobrau oedd:

Iechyd a Lles – Tîm y Gaplaniaeth

Gwella Profiad Cleifion – Canolfan Triniaeth ac Atgyfeirio Austin Friars

Arweinyddiaeth - Dr Nadeem Syed

Gweithio mewn Partneriaeth – Uned Cedar, Wardiau Cyffredinol Ysbyty'r Sir ac Ysgol Gynradd Griffithstown

Ansawdd, Cynladwyedd ac Effeithlonrwydd – Tîm Dexa Uned Osteoporosis

Tîm y Flwyddyn Tîm Uned Gofal Dwys y Newyddanedig, Ysbyty Brenhinol Gwent

Mynd yr Ail Filltir - Rebecca Westbury, Bydwraig y Gymuned

Addysg, Ymchwil ac Arloesi – Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol a Hosbis y Cymoedd

Gwobr Dewis y Cleifion - Dr Abbie Nelson

Gwobr y Cadeirydd – Dr Andy Gray

Gwobr y Prif Weithredwr – Tîm Paediatreg Feddygol yn Ysbyty Nevill Hall

Gwobr Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan – Y Tîm Ymgysylltu

Llongyfarchiadau i bawb!



Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines

Dymuna'r Bwrdd Iechyd longyfarch y rhai a gydnabuwyd yn Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines eleni...



Anrhydeddwyd ein cyn Gyfarwyddwr Nyrsio Denise Llewellyn gydag MBE.



Cydnabyddwyd Bobby Bolt, cyn Ddirprwy Brif Swyddog Gweithrediadau gydag MBE.



Anrhydeddwyd y Dr Ami Jones gydag MBE am ei gwaith Achub Bywydau.



Enillodd Carol Wheeler y BEM am ei gwaith gwirfoddol yn Ysbyty'r Sir, Pontypŵl.

Anrhydedd y Flwyddyn Newydd i Uwch Nyrs

Derbyniodd Louise Rooney, Uwch Nyrs gyda'r Bwrdd Iechyd yr MBE yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am wasanaethau i nyrsio a gofal iechyd mewn carchardai yn Sir Fynwy.



Gwobrau Cynladwyedd GIG Cenedlaethol

Enillodd Tîm Gwastraff ac Amgylchedd y Bwrdd Iechyd y Categori Arloesi yng Ngwobrau Cynladwyedd GIG Cenedlaethol.

Roedd cyflwyno'r wobr wedi'i seilio ar y broses ailgylchu 'cyntaf yn y byd' y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i arloesi yn Ysbyty Gwynllyw a Brenhinol Gwent.

Mae gorchudd offer Polypropylene o'n hysbyta'n awr yn cael ei ailgylchu ar safle Ysbyty Gwynllyw a'i brosesu drwy beiriant Sterimelt.

Mae'r peiriant Sterimelt yn gwrthdroi'r broses gynhyrchu drwy roi gwres wedi'i reoli'n ofalus i ail-

doddi'r deunydd Blue Wrap a'i droi'n hylif fydd yn llifo i fowld i greu bloc o ddeunydd sy'n drwchus a steryll.



Mae'r prif fuddion yn cynnwys dargyfeirio'r gwastraff a oedd yn cael ei gategoreiddio cynt fel gwastraff clinigol a'i drin gyda gwres. Defnyddir proses ddrud carbon ddwys i'w droi yn gynnyrch y gellir ei werthu i wneud cynnyrch arall.

Mae symud ymlaen yn botensial mawr i ddatblygu'r cysyniad Sterimelt yng Nghymru, y DU a drwy'r ysbytai cyhoeddus a phreifat ar draws y byd.



Gwobr Mentoriaeth Flynyddol Prifysgol De Cymru

Yn seremoni 'Gwobrau Mentoriaeth Flynyddol' Prifysgol De Cymru, derbyniodd nifer o nyrsys cofrestredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan enwebiadau.

Cafodd yr enillydd, David Trotman, enwebiadau gan bedwar myfyriwr nyrsio ar wahân ac mae hyn yn dystiolaeth i'r profiad dysgu a chefnogaeth y mae'n ei roi.

Gwobrau Cymuned Gwelliannau Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

ABCi - Enillydd yn y Categori Arweinyddiaeth

Dydd Mercher 24 Mai 2017 cynhaliwyd 3ydd Achlysur Gwobrwy Blyneddol Gwelliannau Parhaus Cymuned Cymru gyfan (AWCIC) a noddwyd gan Academi Cymru ym Mharc Gwledig Orendy Margam ym Mhort Talbot.



Datblygwyd y cynllun gwobrau hyn gyda'r nod gor-redol o rannu arfer da ac mae'n cefnogi'r ymgyrch ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel yng Nghymru. Llwyddodd Tîm Gwelliannau Parhaus Aneurin Bevan (ABCi), (gweler y llun) i ennill y categori Arweinyddiaeth. Enillodd y Tîm y wobwr hon yn 2016 ac eleni mae

wedi ennill y dwbl drwy ennill eto yn 2017.

Llongyfarchiadau i'n holl staff o fewn y Bwrdd Iechyd oherwydd, heb eu hymroddiad a'u gwaith caled, ni fyddai'r wobwr hon wedi bod yn bosibl. Roedd cystadleuaeth frwd gan eraill ar y rhestr fer yn y categori hwn - Heddlu Gwent a gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Enillodd y fenter Ffrind i Mi y Wobr am Gydweithio

Gan gydnabod menter partneriaeth go iawn, unodd y Bwrdd Iechyd gyda Choleg Gwent ac ystod o sefydliadau partner eraill i fod yn rhan o fenter Ffrind i Mi. Nod hwn yw helpu a chefnogi unrhyw un sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig i ail-gysylltu gyda'u cymunedau.

Roedd nifer o bartneriaethau eraill o'r sector cyhoeddus yn cynnig cystadleuaeth galed i'r fenter Ffrind i Mi. Gydag arian gan Gynllun Her Technoleg Iechyd (Cymru) mae ystod o bartneriaid yn y fenter hon gan gynnwys Coleg Gwent, Awdurdodau Lleol, Yr Heddlu, Partneriaeth Gwyddorau Iechyd De Ddwyrain Cymru, gwasanaethau gwirfoddol,



gwasanaethau tai, Elusen Filwrol SSAFA, Gweithredu ar Golli Clyw, sefydliadau iechyd y cyhoedd, Swyddfa Comisiynydd yr Henoed, y Lluoedd Arfog, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion yr Heddlu sydd wedi ymddeol a Chysylltwyr Cymuned.



Bu'n rhaid i bartneriaid ddangos sut roedden nhw wedi goresgyn unrhyw rwystrau oedd yn codi o ymagwedd aml-asantiaeth a pha mor llwyddiannus oedd rhwydweithio a pherthnasoedd wedi sicrhau newid sylweddol mewn brwydro yn erbyn unigrwydd a bod yn ynysig.

Gwobr y Frenhines Elizabeth, y fam Frenhines am Wasanaeth Anghyffredin

Cyflwynwyd Gwobr y Frenhines Elizabeth, y fam Frenhines am Wasanaeth Anghyffredin i Tanya Strange, Nyrs Ardal yng Ngwobrau QNI yng Ngwesty'r Royal Garden yn Llundain ym mis Hydref 2017. Roedd mwy na 300 o nyrsys a gwestai'n mynychu'r achlysur pwysig hwn.



Mae'r seremoni Gwobrwyo'n cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau mewn nyrsio cymuned a'r ymroddiad, yr angen a'r sgiliau sydd gan nyrsys y'n gweithio yn y gymuned heddiw.

Enillwyr Gwobr Arian Ymddiriedolaeth Bydwreigiaeth Iolanthe

Bob blwyddyn, mae Ymddiriedolaeth Bydwreigiaeth Iolanthe yn cyflwyno nifer o wobrau ariannol i fydwagedd sydd wedi dangos bod eu prosiectau'n berthnasol i fydwreigiaeth ac y byddan nhw'n arwain at welliannau mewn gofal drwy arfer, addysg, ymchwil neu astudiaethau rheoli.



Roedd Becky Westbury, Bydwraig (chwith), yn mynychu cwrs hyfforddwy'r yoga adeg geni ac yn awr, mae'n cynnal cyrsiau yoga mewn beichiogrwydd am ddim i ferched.

Mae Kerry Phillips, Uwch Fydwraig (dde) yn trefnu cynhadledd ar Drawma Geni. Bydd ei gwobr yn helpu i ariannu siaradwyr a chynnig lleoedd am ddim i fyfyrwyr bydwreigiaeth.



Gwobrau Iechyd a Gofal South Wales Argus

Roedd Gwobrau Iechyd a Gofal South Wales Argus yn cydnabod gwaith anodd a heriol pobl sy'n gweithio o fewn y sectorau iechyd a gofal.



Roedd staff y Bwrdd Iechyd yn dathlu eu llwyddiant yng Ngwobrau Iechyd a Gofal South Wales Argus. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ac i'n holl staff a enwebwyd....

Tîm yr Uned Llawfeddygaeth Ddydd (DSU),

Enillydd Gwobr i Dimau (dde).



Practis Grŵp Bellevue, Enillydd Practis Meddygon Teulu'r Flwyddyn (isod).



Cydnabuwyd am wasanaeth ac ymroddiad anghyffredin:

- **Tîm y Gwasanaeth Anableddau Dysgu Plant a Phobl Ifanc (CALDS)** yn Ysbyty Sant Cadog
- **Gwasanaeth Gwirfoddol Robin**, Ysbyty Gwynllyw ac Ysbyty Brenhinol Gwent
- **Tîm Ymateb i'r rhai sy'n Syrthio**
- **Emma Mills** o Ganolfan Ymchwil Clinigol ac Arloesi yn Ysbyty Gwynllyw

Gwobrau GIG Cymru

Yn ei unfed flwyddyn ar ddeg, roedd y Bwrdd Iechyd yn arwain y ffordd gyda thair gwobr.

Roedd hyn mewn partneriaeth gydag Ysgol Feddygol, Prifysgol Caerdydd ar un prosiect sef gweithio ar gynlluniau ysbytai a mentrau ansawdd i gyflawni anghenion pobl hŷn bregus, yn arbennig y rhai sy'n dioddef gan ddementia. Hefyd, enillodd y Bwrdd Iechyd wobrau am waith ar Fand 4 HCSW's mewn gofal cymhleth ac ymagwedd rheolaeth integredig Gwasanaeth y Gymuned Torfaen i leihau'r nifer o bobl hŷn sy'n syrthio ac i wella iechyd esgyrn.

Enillodd y Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth gydag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, y Wobr 'Hybu Ymchwil Clinigol a Chymhwyso i Ymarfer'.



Enillodd Tîm Rheolaeth Integredig Gwasanaeth Cymuned Torfaen y Wobr am 'Weithio'n Ddi-dor ar draws Sefydliadau'.

Roedd Band 4 HCSWs mewn Gofal Cymhleth yn ennill y Wobr 'Datblygu Gweithlu Hyblyg a Chynaliadwy'.



Gwobr Anableddau Dysgu Sefydliad Paul Ridd

Mae **Sefydliad Paul Ridd** yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr pan fyddan nhw angen gofal iechyd eilaidd. Maen nhw'n ceisio gwneud gwahaniaeth i bobl ag anableddau dysgu drwy godi ymwybyddiaeth gyffredinol am broblemau y maen nhw'n eu hwynebu wrth geisio gofal iechyd da.



Cyflwynwyd gwobrau i'r Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio Cymru a Chyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru o Lywodraeth Cynulliad Cymru a Phrif Nyrs Melanie Davies, Nyrs y Flwyddyn Coleg Brenhinol y Nyrsys.

Mark Wilkes a Claire Bulpitt, Enillwyr Gwobr Tîm 'Anableddau Dysgu'.

Julie Kendall, Enillydd Gwobr Anableddau Dysgu 'Ymgrychyd dros Newid'.




Cyflwynwyd gwobrau Tra Chymeradwy i Viki Jones, Iwan Morris a Sheila Richards ar gyfer eu Tîm ac i Rachel Challenger.



Gwobrau Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru 2017

Mae'r Gwobrau hyn yn amlygu gwerth cyfraniad nyrsys ar draws pob sector yng Nghymru ac yn cydnabod llwyddiannau anghyffredin nyrsys a safon eithriadol nyrsio.

Yn ei chweched Seremoni Gwobrwyo yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, enillodd Tanya Strange MBE (llun ar y dde), y Wobr 'Llwyddiant Oes' a'r Wobr 'Arloesi mewn Nyrsio'.



Aelodau staff eraill a gydnabuwyd yng ngwobrau RCN Cymru oedd:

- **Hanka Roudnicka**, Rheolwr Ward, Enillydd – 'Gwobr Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth'
- **Claire Jordan**, Nyrs Arweiniol Ymgysylltu â Chleifion ac Addysg, Ail wobwr 'Nyrsio Gofal Sylfaenol'
- **Matthew Rapier**, Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd, Ail wobwr Gweithiwr Cefnogi Gofal iechyd

Enillodd Meddygfa Abersychan (Ilun chwith) wwobr 'Practis Gorau'r Flwyddyn' yng Nghymru.

Gwobrau HFMA

Dr Paul Buss, Cyfarwyddwr Meddygol (dde), Enillydd
Gwobr HFMA ar gyfer Clinigwyr sy'n gweithio o fewn Cyllid.



Llwyddodd dwy o'n nyrsys yng Ngwobrau Cylchgrawn Nyrsio Prydeinig a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mawrth. Karen Hamer oedd yr enillydd yn y category 'Nyrs Iechyd Meddwl y Flwyddyn' a Karen Perry oedd yn drydydd yn y category 'Nyrs y Flwyddyn Gofal Stoma'.

Mae'r Gwobrau sy'n cynrychioli arddangosfa o
ragoriaeth nyrsio yn cydnabod ac yn dathlu bod yr
unigolion wedi mynd dros ben ffiniau cyflenwi gofal.



Fel cydnabyddiaeth genedlaethol i'n hymrwymiad i Luoedd Argof, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael adnewyddu ei Wobr Arian yng nghyfarfod Gwobrau Arian Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwyr Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Adroddiad Dadansoddi Perfformiad

Sut roedden ni'n perfformio yn 2017/18...

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi blas i chi ar sut rydyn ni'n perfformio o safbwynt ein safonau a'n huchelgeisiau ein hunain. Hefyd mae'n cydnabod ein perfformiad yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru'n eu gosod ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Y Cerdyn Sgorio Cytbwys - Trosolwg

Mae'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn offeryn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi fframwaith i GIG Cymru er mwyn gallu monitro perfformiad. Mae'n dangos cyfres o ddangosyddion safonol er mwyn i sefydliad allu gwerthuso ei berfformiad.

Mae'r **Cerdyn Sgorio Cytbwys 2017/18** isod yn dangos bod ein Bwrdd Iechyd wedi gwella perfformiad cyffredinol ym mhob categori yn ystod 2017/18, heblaw yn y categorïau 'Gofal Urddasol' a 'Gofal Amserol'. Mae mwy o wybodaeth am y meysydd hyn yn yr adroddiad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwell perfformiad	Perfformiad cynaliadwy	Dirywiad mewn perfformiad	Crynodeb o'r targed
AROS YN IACH – digon o wybodaeth a chymorth i reoli fy iechyd corff a meddwl	10 mesur	0 mesur	3 mesur	
GOFAL DIOGEL – cael fy niogelu rhag niwed ac yn diogelu fy hun rhag niwed y gwn i amdano	8 mesur	1 mesur	5 mesur	
GOFAL URDDASOL – cael fy nhrin â gofal urddasol a pharchus ac rydw i'n trin eraill yr un fath	2 mesur	0 mesur	5 mesur	
GOFAL EFFEITHLON – derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus	7 mesur	0 mesur	4 mesur	
GOFAL PRYDLON – cael mynediad prydlon i wasanaethau ar sail angen clinigol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fy ngofal	7 mesur	0 mesur	15 mesur	
GOFAL UNIGOL – cael fy nhrin fel unigolyn, gyda fy anghenion a'm cyfrifoldebau fy hun	3 mesur	2 mesur	1 mesur	
EIN STAFF A'N HADNODDAU – Gallu cael gwybodaeth am sut mae'r GIG yn agored a thryloyw am y defnydd o adnoddau a gallaf wneud defnydd gofalus ohonyn nhw	8 mesur	0 mesur	3 mesur	
CRYNODEB	45 mesur	3 mesur	36 mesur	

Mae ein **Hadroddiad Perfformiad** (dogfen ar wahân) yn rhoi manylion sut rydyn ni wedi perfformio yn erbyn ein targedau a'r camau a gynllunir i gynnal neu wella ein perfformiad. Gellir gweld hwn ar

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

Perfformiad Ariannol 2017/18

Mae'n braf gallu adrodd bod y Bwrdd Iechyd unwaith eto wedi cyflenwi gwasanaethau o fewn ei adnoddau a ddyrannwyd yn 2017/18.

Roedd newidiadau yn Neddf GIG (Cymru) 2014 yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd sicrhau adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd. Roedd yn cael ei fesur am y tro cyntaf yn 2016/17.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r ddyletswydd statudol hon gyda gweddill bychan.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei derfynau refeniw ac adnoddau cyfalaf dros y bum mlynedd ddiwethaf:

Perfformiad Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol a Dyletswydd Statudol Adennill Costau Tair Blynedd	2013/14 £000	2014/15 £000	2015/16 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Tanwariant Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol	88	409	214	49	246
Perfformiad Refeniw Statudol Tair Blynedd				672	509

Perfformiad Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol a Dyletswydd Statudol Adennill Costau Tair Blynedd			2015/16 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Tanwariant Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol	89	15	89	42	78
Perfformiad Cyfalaf Statudol Tair Blynedd				146	209

Bu cyflawni dyletswyddau ariannol statudol y Bwrdd Iechyd yn dasg heriol. Mae cyflawni rhaglen arbedion sylweddol ynghyd â rheolaeth ariannol gadarn o fewn y sefydliad wedi helpu i danategu cyflawni targedau.

Cyfrifon 2017/18

Mae cyfrifon llawn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'u harchwilio ac maen nhw ar gael drwy'r ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Yn 2017/18, rydyn ni wedi atgyfnerthu ein gweithgareddau ymgysylltu a disgrifir y rhain isod.

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol: Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu ymhellach trefniadau hir sefydledig gyda'r pum Awdurdod Lleol yn ein hardal ni ynghyd â Phowys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned Lleol ar ystod o newidiadau a datblygiadau gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae rôl actif mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn mynychu trefniadau craffu Awdurdodau Lleol a hefyd rydym wedi sefydlu cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r Cyngor Llawn neu Bwyllgorau Craffu pob Awdurdod Lleol i ddarparu cyflwyniadau diweddarau a thrafod yn agored unrhyw faterion neu gynlluniau allweddol ar gyfer y dyfodol. Hefyd, Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio fel partner allweddol yn y Bartneriaeth Gwent Fawr i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Rydym wedi sefydlu, mewn partneriaeth, fforwm Partneriaeth a hefyd Grŵp Arwain gyda chefnogaeth ystod o raglenni gwaith a threfniadau cefnogi a chynghori.

Gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau): Bu'n flaenoriaeth gan y Bwrdd Iechyd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i weithio'n rhagweithiol gydag ACau ac ASau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn ymwybodol o ddulliau a datblygiadau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau briffio ACau ac ASau'n rheolaidd gan roi diweddariad byr am feysydd diddordeb a datblygiad o raglen waith y Bwrdd Iechyd. Cynhelir cyfarfodydd un i un rheolaidd hefyd rhwng ACau a'r Prif Weithredwr. Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd hefyd yn cyfarfod ACau'n rheolaidd. Yn 2017/18 roedd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i **372** o ymholiadau ysgrifenedig oddi wrth ACau ac ASau.

Gweithio gyda Heddlu Gwent a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n bositif gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent. Mae darparu hyb aml-asiantaeth i gydlynu cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau (Connect Gwent) yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Datblygu dull Gwent i 'frysbenneu stryd'.
- Gweithredu protocolau ar gyfer gwiriadau lleol a chleifion sydd wedi mynd ar goll o ysbytai.

- Adolygu trefniadau Adran 135
- Datblygu cynnig gyda'r pum Awdurdod Lleol ar gyfer cludiant penodol i gleifion / defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.
- Cydweithio i ddatblygu Hybiau Diogelu Aml-asiantaethol (MASH).
- Cyd-gyflwyniad Gwobrau Dewrder.
- Adolygiad o rôl a pholisïau sy'n tanategu arferion nyrsio mewn ystafelloedd gwarchodaeth.
- Gweithio ar y cyd i gyflawni dyletswydd ATAL ac ymateb i'r strategaeth CYSTADLEUAETH.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector: Mae trefniadau hen sefydledig gyda'r trydydd sector yn ein hardal, yn arbennig drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rhan werthfawr yn cefnogi ein agenda ymgysylltu ac yn chwarae rôl actif yng Ngrŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ystod o brosiectau mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr. Rhai enghreifftiau yw:

- Gwasanaeth Cyfeillio Red Robin Age Cymru Gwent yn Ysbyty Gwynllyw (SWH) ac Ysbyty Brenhinol Gwent (RGH), Casnewydd.
- C.H.A.a.T. (Gofyn a Sgwrsio Cartrefi Gofal) - Mae'r gwirfoddolwyr yn aelodau o Gymdeithas Rhai wedi Ymddeol o'r GIG Gwent. Fel cyn gyflogai o'r GIG maen nhw'n angerddol dros wella gofal i bobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio. Yn ystod 2016, roedd gwirfoddolwyr CHAaT yn siarad â dros 1,600 o drigolion a 350 o berthnasau. Bydd gwrando ar adborth, achlysur ymgysylltu gyda phobl hŷn, perthnasau a chartrefi gofal yn cael ei gynnal ym mis Ebrill i ystyried gweithgaredd mwy ystyrlon.
- Peilot o C.H.A.a.T. Ysbyty - Bydd Gwirfoddolwyr ChAat yn cefnogi peilot ar wardiau ysbytai i gefnogi pobl hŷn a'u perthnasau adeg trosglwyddo. Cytunwyd ar systemau atgyfeirio, taflenni gwybodaeth i gleifion a phrosesau wardiau. Mewn partneriaeth gyda'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, mae menter lle mae Gwirfoddolwyr ChAat yn siarad â phobl â phroblemau iechyd meddwl mewn wardiau am eu profiadau gofal. Mae trafodaethau pellach ar y gweill am wirfoddolwyr yn siarad â chleifion sy'n byw gyda dementia a'u perthnasau.
- Ffrind i Mi - cais ar y cyd i dudalen 'syniadau' Her Cymru Technoleg Iechyd i ddatblygu gwasanaethau cyfeillio ar gyfer y rhai sy'n ynysig/ unig yn gymdeithasol. Mae hon yn fenter mewn partneriaeth sy'n cynnwys y Bwrdd

Iechyd, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, Coleg Gwent, Iechyd y Cyhoedd Cymru, Cymdeithasau Tai, Age Cymru, SSAFA a Fforwm y Cyn-filwyr. Mae hwn wedi datblygu'n fudiad cymdeithasol ar y cyd yn barod gyda'r nod o ddatblygu cymunedau tosturiol. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cyfeillio, cynorthwyo a chefnogi cleifion yn ein rhwydwaith o ysbytai.

- Gweithwyr Cefnogi Dementia – mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Alzheimer's, penodwyd 6 Gweithiwr Cefnogi Dementia (DSWs) i weithio ar draws ardaloedd NCN. Drwy weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Asesu Cof, bydd y DSW's yn cefnogi pobl o'r pwynt diagnosis. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu drwy'r Bwrdd Dementia.
- Canolfan Blant Serennu a Sparkle – Mae ystod eang o rolau gwirfoddol yng Nghanolfan Blant Serennu, High Cross, Casnewydd.
- Cymuned Gardd Furiog Maenor Llanfrechfa, Cwmbrân fel rhan o'r rhaglen Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC).

Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned:

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned (CIC) Aneurin Bevan, sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Mae hefyd yn gorff gwarchod GIG ar gyfer pob agwedd o ofal a gwasanaethau.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan wedi parhau i gynnig her adeiladol lle mae hynny'n briodol a hefyd wedi darparu cefnogaeth ragorol ar faterion newid gwasanaethau allweddol drwy gydol 2017/18.

Byddwn yn aml yn cael cyngor gan y Cyngor Iechyd Cymuned ynglŷn ag ymgysylltu'n briodol â'r cleifion a'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Gweithredu a Chyngor Llawn y Cyngor Iechyd Cymuned a hefyd mae'n cymryd rhan mewn trefniadau Cydbwyllgor Cynllunio.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn darparu adroddiad i bob un o Gyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn darparu adroddiad i bob un o Gyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, 6-8 Clos William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbran, NP44 3AB


Ffôn: 01633 838516 (mae gwasanaeth ateb 24-awr)



Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i arwain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y nifer o'n dilynwyr ar Facebook a Twitter yn parhau i gynyddu gyda mwy o bobl yn cyfathrebu gyda ni drwy'r sianeli hyn.

Rydym wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd cymdeithasol proffil uchel drwy ein Tîm Cyfathrebu ond hefyd mewn partneriaeth gyda chyrrff GIG eraill yng Nghymru a phartneriaid cymuned ehangach e.e. Awdurdodau Lleol a chyrrff y Trydydd Sector. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws arbennig eleni ar recriwtio, dathlu ein staff a themâu gofal sylfaenol.



Mae ein dull cyfathrebu 'digidol yn gyntaf' wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn y blynyddoedd a fu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi gwybodaeth, lle nawr rydyn ni'n ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n actif gyda'n cleifion, y cyhoedd a budd-ddeiliaid drwy gyfryngau cymdeithasol. Gwneir hyn mewn amser real drwy gwestiynau cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau, eu profiad presennol o'n gwasanaethau ac ansawdd eu gofal. Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi buddsoddi amser sylweddol yn cydlynu ac yn ymateb i ymholiadau cleifion a'r cyhoedd yn ddyddiol.

Yr hyn sydd wedi profi'n hynod lwyddiannus eleni yw ehangu ein defnydd o storïau fideo a darnau fideo i gefnogi ein dulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu. O safbwynt ein darnau fideo, mae'r rhain wedi profi'n hynod lwyddiannus gyda'n staff a'n cleifion/ cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd wedi gallu cynorthwyo ymgyrch y Bwrdd Iechyd i recriwtio staff newydd i rolau hanfodol drwy farchnata a hysbysebu digidol. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd na allai fod wedi'i gael drwy ddulliau a chyfryngau traddodiadol.

Cyfathrebu ar Gynllun y Gaeaf

Roedd y Tîm Cyfathrebu hefyd yn parhau i hyrwyddo negeseuon pwysig i'r cyhoedd drwy ein hymgyrch 'Byddwch yn Ddoeth y Gaeaf Hwn' i leihau'r galw diangen ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn ystod misoedd y gaeaf. Dosbarthwyd erthyglau i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn

rheolaidd i bwysleisio'r ymgyrch ac i gefnogi ymgyrch 'Dewis Doeth' Llywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnig ei bumed fideo 'Dr Olivia' - hyn yn canolbwyntio ar ddewis doeth mewn gofal sylfaenol. Eto, roedd hwn yn cael proffil uchel ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod y cyfnod o dywydd eithafol yn gynnar ym mis Mawrth 2018, roedd sianeli cyfathrebu digidol y Bwrdd iechyd yn helpu i gael negeseuon cyhoeddus pwysig drosodd i gymunedau lleol. Er enghraifft, roedd Ysbyty Brenhinol Gwent o dan bwysau anferthol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio pobl at wasanaethau iechyd priodol yng Ngwent yn cyrraedd hyd at 115,000 o bobl. Roedd 2,000 o bobl yn rhannu'r negeseuon a 23,300 o bobl yn ymgysylltu â nhw drwy sylw, rannu neu ei 'hoffi'.

Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd wedi gweithio'n agos gyda Thîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y negeseuon pwysig hyn yn cael eu trafod gyda phobl yn ystod sesiynau ymgysylltu yn ardaloedd y Bwrdd Iechyd

Yr Iaith Gymraeg

Rydyn ni'n parhau i gynnal ein hymrwymiad i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg yn byw ym mhob ardal o'r gymuned rydyn ni'n eu gwasanaethu a chydabyddwn bwysigrwydd cyflawni anghenion yr iaith Gymraeg i sicrhau profiadau a deilliannau positif i gleifion.



Roedden ni'n hynod falch o gael cydnabyddiaeth am y gwaith rydyn ni'n ei wneud gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg i godi eu hymwybyddiaeth o'r rolau cyffrous niferus yn y Bwrdd Iechyd ac i glywed eu barn am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.



Mae Ffrind i mi yn fenter o fewn y prosiect Presgripsiwn ar gyfer Unigrwydd. O fewn y prosiect hwn, rydym wedi sefydlu Clybiau Scrabble Dwyieithog yn Y Fenni a Threcelyn sy'n rhoi

cyfle i staff ac aelodau'r cyhoedd gymdeithasu wrth wella eu sgiliau Iaith Gymraeg.

Cynhelir grwpiau Ffocws gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a'r neges allweddol yw, 'Mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni.'

Manteisiwn ar bob cyfle i hybu'r cynnig actif ac i drafod yr amrywiol gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg. Mae adnoddau defnyddiol yn cael eu paratoi ac anogir staff i wisgo'r bathodynau pin a/ neu'r rheffyn Iaith Gwaith.



Rydyn ni'n falch o allu chwarae ein rhan yn Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg - ac rydym yn annog ein staff yn actif i gymryd perchnogaeth o'r her hon. Gwneir pob ymdrech i ddarparu amodau gwaith i hyrwyddo cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a chynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Bydd y Comisiynydd Iaith Gymraeg yn cyflwyno Safonau Iaith Gymraeg Newydd. Rydyn ni'n cefnogi ein staff i fod yn barod yn drefniadol drwy barhau i gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau iaith Gymraeg. Disgrifir ein hystod o gamau i wella ein gallu i gyflenwi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn ein Cynllun Canolig Integredig a gellir ei weld ar

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

Gweithio i Wella

Yn unol â'r 'Egwyddorion Gwella' mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli cwynion yn unol â rheoliadau 'Gweithio i Wella'.

Egwyddor waelodol Gweithio i Wella yw pryd bynnag y mynegir pryder am driniaeth a gofal, naill ai drwy gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad clinigol, gall yr achwynwyr ddisgwyl i ni ddelio ag ef yn agored ac yn onest, dderbyn ymchwiliad trwyadl a phriodol a chydabyddiaeth brydlon ac ymateb yn disgrifio sut bydd hyn yn symud ymlaen.

Pan fydd anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd, nod y Bwrdd Iechyd, pan fydd hynny'n bosibl, yw dychwelyd yr achwynwr yn ôl i'r man lle byddai wedi bod os na fyddai'r gwasanaeth gwael neu'r camweinyddu wedi digwydd. Hefyd, mae uwch aelodau staff yn cynnig cyfarfod gyda'r achwynwyr i ddarparu eglurhad, ymddiheuriad a chymau gwella pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig datrys cwyn cynted ag sy'n bosibl ac eleni, rydym wedi gweithio'n galed i ddatrys tua 1,900 o gwynion, gyda 52% ohonyn nhw'n cael eu datrys yn anffurfiol a 48% yn ffurfiol. Y nod yw datrys pob cwyn ffurfiol o fewn 30 diwrnod gwaith a chwynion anffurfiol o fewn 2 i 5 diwrnod.

Yn dilyn adborth neu gŵyn, mae'n hanfodol gwranddo ar yr achwynwr ac efallai'n fwy pwysig bod camau'n cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth i atal cwynion pellach. O fewn y Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n annog diwylliant o ddysgu lle nad yw gwelliant yn waith ychwanegol ond yn rhan o waith bob dydd.

Diolch am Ddarparu Gofal Gwych

Mae'n bwysig nodi bod ein staff ar draws ardal y Bwrdd iechyd yn derbyn cannoedd o negeseuon o werthfawrogiad bob blwyddyn.

Mae rhai o'r rhain yn cael eu rhoi ar safle mewnwyd ein staff ac ar ein gwefan lle mae wal benodol ar gyfer diolchiadau gan aelodau'r cyhoedd i rannu profiadau, geirda a diolch.

Here's some examples of messages we received in 2017/18:

Hoffwn ddweud diolch yn anferthol i'r Tîm yn yr Uned Endosgopi oedd yn gofalu amdanaf yn Ysbyty Ystrad Fawr. Roeddwn yn hynod nerfus ac o'r funud y cerddais i mewn i'r Adran, cefais fy nhawelu. Yn gyntaf, roeddwn i'n ddiolchgar i gael apwyntiad ar ddydd Sadwrn. Roed y Nyrs gyntaf i mi ei chyfarfod yn anhygoel - roedd yn fy nhawelu er fy mod yn dal yn ofnus o'r anhysbys a'r tawelyddiad, y driniaeth a'r deiliant!

Pan euthum i mewn i gael y driniaeth, cyflwynwyd fi i'r Tîm fyddai'n gofalu amdanaf a gwnaethon nhw hynny'n union- gwaith rhagorol mewn dull proffesiynol. Roeddwn wedi ymlacio'n llwyr ac yn gyfforddus. Roedd y gofal a gefais yn anhygoel gan iddyn nhw ddisgrifio popeth i mi nes i mi anghofio'r hyn oedd yn digwydd. Ni allaf fynegi mewn geiriau pa mor wych roedden nhw. Roeddwn wedi gwneud fy hun yn sâl yn poeni ac roedden nhw'n amlwg yn gyfarwydd â hyn ac yn gweithio fel Tîm i'm tawelu. Maen nhw'n Dîm gwych!

Yna, aethpwyd â mi i'r Ystafell Adfer lle cefais fy nhrin fel petawn mewn Ysbyty Preifat. Rydw i'n hynod ddiolchgar am bopeth a wnaethon nhw i mi. Mae cynifer o bethau negyddol yn cael eu dweud am y GIG a dim digon o ganmol. Diolch yn fawr, bydda i'n siŵr o ddweud wrth unrhyw un am beidio â phoeni gan nad yw mor ddrwg ag y byddech chi'n ei ddychmygu.

Julie Prosser - Ionawr 2018

Diolch i'r Ganolfan Bwcio yn arbennig Deb a'i chydweithiwr dienw am fy helpu i gael apwyntiad. Bu'n rhaid i mi gysylltu â nhw nifer o weithio dros y misoedd diwethaf ac maen nhw bob amser yn hynod brysur a hynod garedig.

Sue Read - Hydref 2017

Yn ddiweddar, bu'n rhaid i mi aros i mewn yn Ysbyty Nevill Hall. Rydw i'n nyrs fy hun ac yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar nyrsys, yn arbennig diffyg staff ac yn y blaen.

Cefais fy syfrdanu o weld staff yn gweithio dros eu horiau gwaith a ddim yn mynd adref ar amser heb ail feddwl. Fodd bynnag, cefais fy synnu o glywed y llawenydd a'r chwerthin ar y ward yn codi ysbryd pawb, hyd yn oed pan oedden nhw'n brysur. Roedd hyn hyd yn oed y Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd a'r glanhawyr.

Pan gefais fy rhyddhau daeth y staff ataf i ddymuno'n dda i mi gan wasgu fy llaw – gwnaeth hyn gryn argraff arnaf. Dylech fod yn falch iawn – daliwch i wneud y gwaith da a daliwch i chwerthin, pleser oedd bod yn glaf dan eich gofal ar adeg bryderus iawn i mi.

Susan Lamb - Tachwedd 2017

Mae derbyn newyddion bod un annwyl gennych â chyflwr terfynol yn torri calon, gan ysgwyd eich byd mewn modd na ellir ei ddychmygu. Lleddfwyd natur anodd yr hyn a fu'n un o'r siwrneiau anoddaf i mi gan y staff ar bob lefel yn Ward B3 Ysbyty Brenhinol Gwent. Heb eithriad, roedd yr holl staff yn cynnig cefnogaeth 'yr ail filltir' bob cam o'r ffordd. Pob un yn arddangos proffesiynoldeb, sensitifrwyd a thosturi 24 awr y dydd.

Oherwydd ein profiad positif, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi ein diolch cywiraf am y gefnogaeth feddygol a bugeiliol a gynigiwyd drwy gydol mis Gorffennaf 2017 i un o drysorau eithriadol bywyd. Mae ein profiad positif wedi adfer ein ffydd yn ansawdd staff sy'n gweithio i'r GIG gan weithio'n ddiflino yn aml gydag adnoddau prin i ddarparu gofal anhygoel i'w cleifion a'u teuluoedd.

Jean Knott, Leaza May, Emma Pursey - Awst 2017

Cafodd fy mab anaf cas, ond yn ffodus, digwyddodd y tu allan i Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglyn Ebwy. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r nyrsys yn yr ysbyty oedd yn arbennig o dda. Ni allaf fynegi'n ddigonol pa mor lwcus rydyn ni i gael y gwasanaeth hwn yng Nglyn Ebwy. Cafodd fy mab driniaeth a phelydr-x o fewn yr awr ac roedd y nyrsys yn ffonio Ysbyty Nevill Hall i ddweud wrthynt am ein disgwyl gan arbed oriau o aros. Roedd y staff ar ward y plant yn anhygoel yn arbennig Jonathan yr arbenigwr chwarae oedd yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod fy mab yn dawl ei feddwl.

Diolch i bawb a fu'n rhan o driniaeth fy mab.

Helen Cooper - Mai 2017

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn ystod 2017/18, atgyfnerthwyd ymhellach ein gwaith i ymgysylltu â chymunedau ar draws Gwent. Mae ein Tîm Ymgysylltu wedi bod yn bresennol mewn cymunedau ar draws Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i glywed am brofiadau, meddyliau a syniadau pobl yn eu hardaloedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei ymgysylltiad a'i gyfranogiad gyda dinasyddion Gwent. Ers ei sefydlu yn ystod Hydref 2015, mae'r Tîm Ymgysylltu wedi siarad â 16,152 o bobl. Mae'r tîm yn parhau i fod yn bresennol mewn ardaloedd lle mae llawer yn troedio (h.y. archfarchnadoedd, siopau un alwad, a Chanolfannau Hamdden) i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd agored i geisio a chlywed barn y bobl leol. Er bod trafod hir wedi bod am Ddyfodol Clinigol drwy amrywiol gyfleoedd ymgysylltu, gwelwyd cynnydd sydyn ers cyhoeddi Ysbyty Prifysgol y Faenor ac yn benodol o fewn y flwyddyn ddiwethaf.



Yn fwy diweddar, mae Tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi rhannu gwybodaeth ac wedi profi derbyniad am y canlynol:

- Modelau newydd Gofal Sylfaenol a rhai ar y gorwel (h.y. timau amlddisgyblaeth);
- Creu hybiau gofal integredig; a
- Chyflwyno'r cynllun mân anhwylderau.

Mae'r ymagwedd wyneb yn wyneb yn galluogi sgysiau manwl a phrofi dealltwriaeth gan alluogi pobl i ofyn cwestiynau sy'n berthnasol iddyn nhw a rhai eu teuluoedd.

Sefydlu Fora Lleol - Erbyn hyn, mae'r Bwrdd iechyd wedi cynnal 8 fora Cymuned 'Siarad am Iechyd' sy'n ymwneud â'r pum bwrdeistref yng Ngwent. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig y cyfle i rannu gwybodaeth am ddatblygiadau a thrawsnewid gwasanaethau ynghyd â gwella'r cyfle i:

- Symud o ymgysylltiad/ ymgynghoriad ar faterion unigol i drafod mwy cyffredinol;
- Gynnal sgwrs barhaus a chynaliadwy o fewn cymunedau dros gyfnod o bum mlynedd (ac efallai y tu hwnt);
- Gynnig ychwanegiad cryf i'r ymgysylltiad anffurfiol drwy ein rhaglen Engage4change reolaidd; a

- Thrafod ein rhaglen strwythuredig o drosglwyddo yn ôl y gofyn yn y Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Mae'r trafodaethau, cwestiynau a'r atebion a godwyd o fewn y sesiynau hyn yn cynnig cipolwg i ganfyddiad pobl a'u persbectif presennol am wasanaethau iechyd lleol a'r hyn y maen nhw'n ei olygu iddyn nhw. Rhennir yn gyffredinol y cwestiynau a'r atebion a godir ynghyd â'r ymateb cyfundrefnol iddyn nhw gyda'r holl gyfranogwyr. Fe'u cyhoeddir yn fuan ar wefan y Bwrdd Iechyd fel cofnod agored a thryloyw o ddeialog i bawb gael eu gweld. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y rhain hefyd yn cael eu rhannu gydag arweinwyr Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth i hysbysu blaenoriaethau lleol.

Hyfforddiant Datblygu Cymuned ar sail Asedau - Yn ystod mis Rhagfyr 2017, roedd tua 40 o bobl ar draws y systemau iechyd, gofal cymdeithasol a thai'n cymryd rhan mewn Hyfforddiant Datblygu Cymuned ar sail Asedau dan arweiniad Cormac Russell o Ddatblygu Anogaeth. Mae'r ymagwedd yn adeiladu ar yr asedau sydd o fewn cymunedau ac mae'n cefnogi'n llwyr obeithion Cynllun Tymor Hir Cymru, yn arbennig rhai cadernid, dinasyddiaeth a chyfrifoldeb personol. Sefydlwyd Cymuned Ymarfer o ganlyniad.

Ymgysylltiad/ ymgynghoriad ffurfiol ar newid mewn gwasanaethau – Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori am newid yn y gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Iechyd Meddwl oedolion hŷn (ymgynghoriad)
- Llawfeddygaeth Thorasig (ymgysylltiad)

Trefnwyd pob sesiwn drwy argaeledd briffiau ysgrifenedig, sesiynau ymgysylltu yn y gymuned, sesiynau ymgysylltu â staff a chyfeiriad e-bost penodol.

Plant a Phobl Ifanc – O fewn y flwyddyn, gwnaed cysylltiadau da gyda'r colegau ar draws Gwent.



Ymgysylltu â Staff

Yn 2017/18, roedden ni'n parhau i ddatblygu i ymgysylltu gyda'n staff drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys:

- Bwletin wythnosol yn llawn newyddion i staff;
- Atgoffa rheolwyr ar bob lefel i rannu newyddion a'r diweddariadau gyda'u staff;
- Fforwm ar-lein i ofyn unrhyw gwestiwn i'n Prif Weithredwr;

- Mentrau cyfryngau cymdeithasol cynyddol i ddathlu a diolch i'n staff (e.e. Mis Rhyngwladol y Nyrsys, Diwrnod Diolch i'ch Porthor);
- Sesiynau galw heibio misol ar gyfer staff i gyfarfod ein Prif Weithredwr mewn amrywiaeth o adeiladau'r Bwrdd Iechyd;
- Menter lle gall timau wahodd arweinwyr Gweithredol i weithio gyda nhw am ddiwrnod;
- Digwyddiadau briffio Uwch Arweinwyr;
- Ffair iechyd blynyddol i staff rannu eu gwaith gyda staff eraill a'r cyhoedd;
- Nifer o gynadleddau i staff rannu eu gwaith, gynyddu eu haddysg a dathlu llwyddiannau;
- Digwyddiadau Cydnabod Staff a Gwirfoddolwyr; ac
- Arolwg Staff GIG sydd wedi ein galluogi i gasglu ystod o ystyriaethau gan staff y gallwn ddysgu ohonyn nhw a gweithredu arny'n nhw.

Mae ein timau Cyfathrebu a Gweithlu wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd gyda staff, yn arbennig o safbwynt ein Strategaeth Dyfodol Clinigol sy'n newid y modd y mae ein gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu.

Cysylltiadau Iechyd Byd-eang

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes hir o gefnogaeth gyfundrefnol ar gyfer prosiectau Cysylltiadau Iechyd Byd-eang. Dechreuodd hyn gyda chefnogaeth i Gyswllt Gwent â De Ethiopia, oedd yn parhau am 16 mlynedd gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r cyswllt hwn wedi peidio erbyn hyn gan fod y prosiectau yn hunangynhaliol.

Rydyn ni'n annog ein cyflogai i gyfrannu i'r rhaglen 'Cymru dros Affrica' sy'n dwyn buddion yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r rhaglen, ar y cyd gydag Academi Cymru, yn cynnig cyfle unigryw i staff GIG weithio ar brosiectau datblygu a gwella sgiliau arweinyddiaeth yr ydyn ni'n eu gwerthfawrogi ac yn awyddus i'w datblygu ymhellach.



Ymchwil a Datblygiad (R&D) o fewn y Sefydliad

“Mae ymchwil a gweithgareddau ymchwil yn effeithio’n uniongyrchol ar ddeilliannau ansawdd a phrofiad cleifion.” (Boaz et al, 2015).

Mae ymchwil wedi parhau i ffynnu yn y Bwrdd Iechyd gyda mwy na 75 o astudiaethau’n agored ac yn recriwtio. Recriwtiwyd mwy na 1,300 o gyfranogwyr i’n hastudiaeth a’n treialon yn 2017/18.

Er bod meysydd cyfarwydd yn parhau i ddatblygu eu portffolios, gwelwyd hefyd gynnydd cyson yn y nifer o adrannau newydd sy’n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil.



- Yn Offthalmoleg, roedd y Bwrdd Iechyd yn agor astudiaeth i recriwtio pobl ifanc ar draws Cymru gan roi cyfle iddyn nhw gael triniaeth lawfeddygol na fyddai ar gael iddyn nhw y tu allan i dreial clinigol.

- Roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu blaenoriaethu astudiaeth mewn meysydd clefydau prin. Eleni, sefydlwyd astudiaeth ar gyfer Waldenstrom’s Macroglobulemia a pharlys Supranuclear.

Er bod safleoedd clefyd i gyd yn bwysig i ni, roedd dementia, iechyd meddwl ac adsefydlu ar ôl strôc i gyd ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer y llynedd ynghyd â sefydlu tîm gofal sylfaenol bychan a fydd hefyd yn alinio R&D i’r model dyfodol clinigol o gynnig gwasanaethau’n nes i’r cartrefi.

Strategaeth R&D Newydd

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo Strategaeth Ymchwil a Datblygiad (R&D) newydd sy’n canolbwyntio ar:

- Weithredu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)
- Gyfarfod KIs Llywodraeth Cymru i gynyddu’r nifer o astudiaethau ymchwil o safon uchel sy’n cael eu cynnal o fewn y Bwrdd Iechyd a’r nifer o gyfranogwyr sy’n gallu elwa o gymryd rhan ynddyn nhw.
- Gynladwyedd – ariannol a ffisegol
- Ddefnyddio mesurau sy’n sicrhau bod treialon ymchwil a chlinigol yn weithgaredd craidd ar draws pob adran o’r Bwrdd Iechyd.

Bydd **ein camau nesaf** yn sicrhau bod Ymchwil a Datblygiad wedi'i alinio i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol a'u bod yn ganolog i ail-lunio gwasanaethau. Hyn i gyd yn nhermau gwerthuso systemau a phrosesau newydd i sicrhau eu bod wedi'u seilio ar arfer ar sail y dystiolaeth orau a bod yna le o fewn pob gwasanaeth fydd yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael mynediad i dreialon clinigol yn rheolaidd.



Cyflwyno ... **Gwella Parhaus Aneurin Bevan (ABCi)**



ABCi yw canolfan gwella parhaus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n cefnogi timau ar draws y sefydliad wrth iddyn nhw gyflenwi gofal iechyd diogel a dibynadwy o'r safon uchaf.

Mae gwaith yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- **Galluedd** - cynyddu sgiliau gwella ac arweinyddiaeth ar draws y Bwrdd Iechyd i alluogi staff i wneud newidiadau ystyrlon.
- **Arloesi** - llunio a phrofi ymagweddau newydd i ddelio â rhai o'r heriau mawr sy'n ein hwyneb o fewn gofal iechyd.
- **Cyflenwi** - cynnal rhaglenni gwella ar raddfa eang gan weithio gyda staff i wella gwasanaethau i gleifion.

Cynyddu galluedd

Mae ABCi wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd gwella ansawdd y gweithlu ar draws ystod o raglenni a gweithgareddau hyfforddi.



Mae uwch arweinwyr yn profi eu sgiliau gwella yn amgylchedd cymhleth gofal iechyd drwy'r *Rhaglen Gwell Arweinyddiaeth a Rheolaeth* (llun: staff yn dathlu cwblhau'r rhaglen). Mae galluogi unigolion â chyfrifoldeb rheoli i arwain yn fwy effeithlon yn ganolog i'r cwrs *Pobl sy'n*

Arwain sy'n cael ei gynnal gyda thîm Datblygu Cyfundrefnol y Bwrdd Iechyd.

Mae dwy raglen newydd sy'n cefnogi staff gyda sgiliau hyfforddi a mesur yn sicrhau bod timau sy'n sicrhau gwelliannau'n gwneud yr effaith mwyaf. Mae'r Rhaglen *Silver Modelling Fellow* yn helpu staff i ddatblygu eu sgiliau wrth ddadansoddi data, adeiladu modelau graffigol i gyflwyno darganfyddiadau ac ymchwilio i senarios 'Beth os?' i hysbysu a gwella gwasanaethau.

Mae ABCi hefyd wedi bod yn cefnogi timau i gynyddu eu gallu gwella gyda'i gilydd ac mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i wella cyflenwi meddyginiaethau i wardiau. Mae dros 4,000 o staff hefyd wedi cael cyflwyniad cyffredinol i wella ansawdd drwy'r rhaglen genedlaethol *Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd*.

Datblygu arloesi

Mae ABCi wedi chwarae rôl gynyddol wrth baratoi ar gyfer agor Ysbyty Prifysgol y Faenor sy'n rhan o raglen *Dyfodol Clinigol* y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi golygu cymryd ymagwedd arloesol drwy ei waith modelu i ddarparu senarios ar gyfer gwneud penderfyniadau am nifer y gwelyau a'r theatrau llawdriniaethau yn yr ysbyty newydd ynghyd â phob safle ar draws y sefydliad.

Mae gwaith i ddatblygu app i gefnogi cleifion i golli pwysau wedi'i ddatblygu ar y cyd gyda staff clinigol. Ei ffocws yw atal diabetes neu, o leaf, osgoi ei effeithiau negyddol pan fydd unigolion wedi datblygu'r afiechyd.

Mae ABCi hefyd wedi gweithio ar lefel Cymru gyfan i ddatblygu'r Hac Iechyd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan gasglu ynghyd hyfforddai a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill gyda datblygwyr, cynllunwyr a ffigyrau diwydiannol i lunio dyfodol technoleg iechyd.



(Llun: staff yn cymryd rhan mewn sesiwn ddysgu ar y cyd)

Sicrhau newid cynaliadwy

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ABCi wedi cynnal tair rhaglen gwella ar y cyd ar raddfa fawr mewn partneriaeth gydag is-adrannau a chyfarwyddiaethau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ansawdd gofal a gwasanaethau.

Mae'r *Grŵp Cydweithredol Gofal heb ei Drefnu* wedi bod yn delio â'r angen am sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn gyflym ac mor ddiogel ag sy'n bosibl.

Drwy weithio gyda'r gyfarwyddiaeth nyrsio, mae'r *Grŵp Cydweithredol Lleddfu'r pwysedd* wedi bod yn gweithio i ddileu briwiau pwysedd y gellid eu hosgoi mewn gofal ysbyty. Mewn chwe mis yn unig, gwelwyd cynnydd sylweddol ar bob ward oedd yn cymryd rhan yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac, o ganlyniad, mae'r gwaith yn awr yn cael ei ymestyn i Ysbyty Nevill Hall.

Lansiwyd y *Grŵp Cydweithredol Trawsnewid Gofal Cleifion Allanol* ym mis Chwefror 2017 ac mae wedi dod â deg tîm at ei gilydd gan gynnwys rhiwmatoleg, diabetes, poen cronig a llawfeddygaeth gyffredinol i ddysgu, rhannu a chyflwyno arfer gorau a welir ar lefel leol a chenedlaethol. Gwelwyd cynnydd yn barod yng nghyfarwyddiaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) fydd yn cael ei gyfateb gan dimau eraill sy'n cyfranogi.

Bu'r Tîm ABCi hefyd yn gweithio gyda'r tîm cyfleusterau yn Ysbyty Ystrad Fawr ar raglen waith oedd yn arwain at nifer o welliannau mawr mewn glanhau a chymryd gofal yn yr ysbyty. Bwriedir treiglo'r rhain i bob safle.

Ennill gwobrau

Enillodd y tîm ABCi wobwr Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru gyfan (AWCIC) am arweinyddiaeth am yr ail flwyddyn. Roedd ei gefnogaeth i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwobrau CIC Cymru 2017 yn arwain at gyflwyno dros 40 prosiect gyda thri o'r rhain yn derbyn gwobrau cenedlaethol.

Mae ABCi yn parhau i fod yn hyb Arloesi Comisiwn Bevan gyda ffocws ar ddatblygu a phlannu modelau mathemategol o fewn byrddau iechyd GIG Cymru. Mae hefyd wedi datblygu cydweithio arloesol ac unigryw gydag Adran Fathemateg Prifysgol Caerdydd ar gyfer prosiectau traethodau MSc i'w cynnal o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am waith yr ABCi, ewch i'n tudalennau we ar wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/69347>

Neu dilynwch ni ar Twitter @ABCiAB

Cynladwyedd

Strwythur Rheolaeth

O fewn y Bwrdd, mae Grŵp Llywio Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ag agenda eang yn cynnwys Ynni, Gwastraff, Dŵr a Chynladwyedd. Cyd-gadeiryddion hwn yw'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Gwaith y grŵp yw datblygu agenda cynladwyedd y sefydliad.

Trafodir materion iechyd amgylcheddol y cyhoedd ar y cyd gydag Asiantaeth Iechyd Amgylcheddol Iechyd y Cyhoedd Cymru ac Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr. Cyflwynir adroddiadau am ddigwyddiadau iechyd amgylcheddol y cyhoedd i Bwyllgor Partneriaethau a Lles y Cyhoedd.

Proffil yr Ystâd

Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 121.82 hectar o dir gydag adeiladau dros ardal llawr cyfan o 312,426 M2 ac mae'n cynnwys:

- 2 Ysbytai aciwt cyffredinol
- 3 Ysbytai aml-wasanaeth
- 4 Ysbytai tymor byr nad sy'n aciwt
- 2 Ysbytai arhosiad hir
- 1 Ysbyty arbenigol
- 3 Ysbytai cymuned
- 48 Cyfleusterau eraill i gleifion
- 9 Cyfleusterau cefnogi eraill

Uchafbwyntiau Perfformiad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar hyn o bryd yn gweithio tuag at darged heriol ar gyfer gostwng lefel carbon o 3% blwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd hyn yn parhau i adeiladu ar lwyddiannau blaenorol i ostwng gollyngiadau.

I barhau i sicrhau gostyngiad carbon, bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio datblygu strategaeth ynni i ganfod arbedion pellach posibl. Bydd y strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau, gyrwyr a'r cyfleoedd presennol i'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn archwilio sut gall rheoli carbon o fewn y sefydliad fod yn fwy effeithlon gydag arfer gorau, technoleg ac arloesi.

Mae'r pum system photovoltaic solar yn parhau i ddarparu trydan gwyrdd i brif adeiladau; eleni, mae'r paneli solar wedi arbed 59,327 Kg o garbon deuocsid (cyfateb i 59 tunnell fetrig). Mae hyn hefyd yn arbediad trydan sy'n cyfateb i'r hyn a ddefnyddir gan 50 cartref yn y DU bob blwyddyn.

Rydyn ni'n parhau i weld cynnydd da mewn gostwng ein gollyngiad CO₂. Yn 2017/18, roedd y Bwrdd Iechyd yn gollwng 26,826 tunnell fetrig o CO₂ o'r ynni a ddefnyddir i gynhesu a phweru'r ystâd. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5.1% dros y flwyddyn flaenorol. Dylid nodi, yn unol â'r canllawiau, bod y gollyngiadau CO₂ wedi'u cyfrif dros y cyfnod gyda'r ffactorau trosiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan DEFRA.

Eleni gwelwyd gostyngiad o 2.1% yn y defnydd o drydan ond gwelwyd cynnydd o 5.2% yn y defnydd o nwy, yn bennaf oherwydd y cyfnodau o dywydd gwael yn ystod misoedd y gaeaf.

Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr		2015-16	2016-17	2017-18
Dangosyddion heb fod yn rhai ariannol (1000tCO ₂ e)	Cyfanswm Gollyngiadau gros	30.167	28.268	26.826
	Cyfanswm Gollyngiadau net			
	Gollyngiadau Gros Sgôp 1 (Uniongyrchol)	14.948	14.714	15.493
	Gollyngiadau Gros Sgôp 2 & 3 (Anuniongyrchol)	15.219	13.554	11.333
Treuliad Ynni Perthnasol (miliwn KWh)	Trydan: An-adnewyddadwy	30.662	30.349	29.710
	Trydan: Adnewyddadwy			0.155
	Nwy	81.208	80.124	84.289
	LPG			
	Arall	1.468	1.961	1.280
Dangosyddion Ariannol (£miliwn)	Gwariant ar Ynni	5.900	5.807	6.067
	Gwariant Trwydded CRC (2010 ymlaen)	0.520	0.508	0.500
	Gwariant ar fantoli achrededig (e.e. GCOF)			
	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol			

Fel y gellir gweld yn y tabl isod, mae treuliad dwr ar draws yr ystâd wedi cynyddu yn 2017/18. Mae hyn oherwydd sawl achos o golli dŵr yn Ysbyty Maenor Llanfrechfa ac Ysbyty Gwynllyw.

Mae treuliad dŵr yn cael ei fonitro'n fanwl gyda chyfarpar dŵr wedi'i osod ar bob mesurydd yn y prif safleoedd. Mae hyn yn ein galluogi i ganfod proffiliau treuliad anghyffredin a'i gywiro ar unwaith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i werthuso cyfleoedd arbed dŵr ac yn gweithredu technoleg a rheoliadau systemau dŵr newydd i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ar draws y sefydliad.

Treuliad Adnoddau Terfynedig			2015-16	2016-17	2017-18
Dangosyddion- heb fod yn rhai ariannol (000m3)	Treuliad Dŵr (Ystâd swyddfeydd)	Cyflenwyd	409	392	422
		Echdynnwyd			
		fesul FTW			
	Treuliad Dŵr (Ystâd nad sy'n swyddfeydd)	Cyflenwyd			
		Echdynnwyd			
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)		1.112	1.075	1.198
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd nad sy'n swyddfeydd)				

Teithio Cynaliadwy

Ar y cyd gyda Iechyd y Cyhoedd Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio tuag at gynllun teithio cynaliadwy fydd yn nodi ac yn hyrwyddo dulliau eraill o deithio i a rhwng safleoedd. Nod hyn yw gostwng siwrneiau ceir lle mae un person yn teithio, ac felly gostwng materion tagfeydd / parcio ar safleoedd ac effaith carbon wrth wella iechyd a lles staff.

Bydd y cynllun teithio wedi'i gwblhau yn ystod 2018/19.

Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Fel bob amser, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithlon i brosesu'r gwastraff sy'n cael ei greu o weithgareddau gofal iechyd. Mae cyfleusterau ailgylchu ym mhob man yn yr holl ysbytai lle mae ailgylchu cymysg yn cael ei gasglu i'w ddosbarthu a'i ailbrosesu wedyn yn gynnyrch a deunyddiau newydd. Mae cardfwrdd yn cael ei wahanu a'i becynnu yn y ddau brif ysbyty o fewn y Bwrdd iechyd a'i brosesu yn becynnau maint melin. Rydym newydd brynu trydydd pecynnwr cardfwrdd a bydd hwn yn gweithredu yn YYF yn fuan iawn.

Mae Didoli Gwastraff Heintus yn cael ei werthuso'n barhaus ac, os yn bosibl, yn unol â chanllawiau ac arfer gorau, caiff eitemau eu symud a'u trosglwyddo i opsiwn gwaredu llai costus.

Mae system ailgylchu Gwastraff Bwyd yn YYF wedi parhau i fod yn llwyddiannus gyda gostyngiad mewn cost i'w weld oherwydd gwaith y tîm Gwelliant Parhaus. Bydd hyn yn sail i fodel didoli a gwaredu gwastraff bwyd yn Ysbyty Prifysgol y Faenor newydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at weithredu agwedd sero tuag at dirlenwi gyda llawer o'r gwastraff cyffredinol (bagiau du) yn cael ei anfon i ffatri ynni yn lle gwastraff.

Mae peiriant Sterimelt (y cyntaf yn y byd) yn Ysbyty Gwynllyw sy'n prosesu amplap llawfeddygol polypropylene wedi ymestyn ei waith ac yn awr yn derbyn yr amplap o bob safle'r Bwrdd Iechyd pan fydd hynny'n briodol. Dangoswyd hwn ar newyddion ITV Cymru ym mis Mai ac mae'n dal i ennill cyhoeddusrwydd a diddordeb dros y byd i gyd. Ar hyn o bryd, rydym yn treialu eitemau un defnydd polypropylene eraill fel cynfasau trosglwyddo cleifion, yn y peiriant i wneud y gorau eto o botensial y peiriant. Mae gwaith ymchwil academaidd llwyddiannus wedi'i wneud i droi'r plastig sydd wedi'i ailgylchu o'r peiriant yn ffilament ar gyfer argraffu 3D. Y nod tymor hir yw gallu argraffu nwyddau traul meddygol ar y safle a hynny o'n gwastraff ein hunain.

Mae WarpIt, y system ailddefnyddio ar-lein wedi'i gyflwyno yn ysbytai Nevill Hall a Brenhinol Gwent. Mae'n caniatáu i staff gyfnewid eitemau nad oes eu hangen bellach fel dodrefn, cyfarpar swyddfa, papur ysgrifennu a nwyddau traul meddygol. Hyd yn hyn, mae wedi arbed £8k mewn costau gwaredu/pwrcasu y gellid eu harbed a 3,582 kg CO2. Ein nod yw treiglo hyn i bob safle o fewn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2018.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad gwastraff dros y tair blynedd ddiwethaf. Dylid nodi oherwydd methiant cyfarpar yn NHH a SWH am gyfnodau, nid oedd unrhyw gyfleuster ar gyfer pecynnu cardfwrdd yn NHH ac, ar bob safle, bu'n rhaid ei gymysgu. Roedd hyn yn arwain at ostyngiad mewn ailgylchu. Mae'r problemau hyn wedi'u cywiro er y dylid nodi bod y sefyllfa'n debygol o ddigwydd eto heb fuddsoddiad mewn cywasgwyr newydd.

Mae'r gostyngiad mewn cyfanswm costau gwaredu'n bennaf oherwydd gwell contract gwastraff clinigol.

Gwastraff		2015-16	2016-17	2017-18
Dangosyddion heb fod yn rhai ariannol (tunnell fetrig)	Cyfanswm Gwastraff	3080	3055	3212
	Tirlenwi	1410	1418	1681*
	Ailddefnyddio/ Ailgylchu	725	801	680
	Compost	0	0	0
	Llosgi ac adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	825	836	850
Dangosyddion Ariannol (£ 000)	Cyfanswm Cost Gwaredu	831	845	700
	Tirlenwi	319	333	362
	Ailddefnyddio/ Ailgylchu	72	64	35
	Compost	0	0	0
	Llosgi ac adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	440	448	303

**O fewn data'r gwastraff, mae brasamcan o safbwynt casgliadau biniau olwyn o Ganolfannau a Chlinigau Iechyd. Mae hyn yn cyfateb i 1.5% gyfanswm tunnell fetrig tirlenwi'n unig.*

Rheolaeth Amgylcheddol - ISO 14001

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) i'r safon rhyngwladol ISO 14001.

Mae'r EMS wedi datblygu i fod yn bwynt ffocws ar gyfer datblygu gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n darparu ymagwedd unol ar gyfer rheoli mentrau minimeiddio gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a mentrau teithio gwyrdd.

Mae ardystio'n sicrhau mai nid yn unig cydymffurfio â deddfwriaeth rydyn ni'n ei wneud ond yn mynd yr ail filltir drwy weithredu arfer gorau yn ein rôl



fel sefydliad GIG enghreifftiol ym maes rheoli gwastraff gofal iechyd ac amgylcheddol.

Mae'r sefydliad yn gosod pwysigrwydd mawr ar ardystio parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd a'n budd-ddeiliaid.

Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Pam mae WBFGA yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd?

Mae'n helpu i wella'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau.

Yn 2015, Gwnaed Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gyfreithiol. Bydd y ddeddfwriaeth hon, sy'n torri tir newydd yn golygu pan fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau (mawr neu fach) y bydd yn rhaid iddo ystyried yr effaith a all ei gael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Ngwent, ar hyn o bryd ond hefyd yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn mynnu hefyd bod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn cyflenwi ei wasanaethau yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sef:

- Yn ystyried y tymor hir fel nad yw penderfyniadau'n effeithio'n negyddol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion eu hunain;
- Cymryd ymagwedd integredig fel ei fod yn ystyried holl goliau lles wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd;
- Cynnwys holl amrywiaeth ei boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n eu haffeithio;
- Gweithio gydag eraill yn gydweithredol i gael hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd; ac yn



- Deall pam mae pethau'n digwydd a defnyddio'r wybodaeth hon i atal pethau rhag digwydd eto neu waethygu.

I gael mwy o fanylion am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf hon, gweler crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf - [WBFGA - The Essentials](https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf)
<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf>

Mae'r Ddeddf wedi mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau pwysicaf. I helpu'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau pwysicaf, mae wedi gosod deg amcan Lles.

Bydd yr amcanion hyn hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd I ddangos sut mae'n cyfrannu'n benodol at bob un o'r saith Gôl Lles cenedlaethol i Gymru oedd wedi'u cynnwys o fewn y Ddeddf.

10 amcan lles y Bwrdd Iechyd yw:

AB 1 - Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi cefnogaeth i bob plentyn yng Ngwent i sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd.	AB 2 - Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach ac i heneiddio'n dda er mwyn iddyn nhw allu cynnal eu hannibyniaeth a mwynhau safon da o fywyd hyd at henoed.	AB 3 - Hyrwyddo lles meddwl fel sylfaen i iechyd, cynyddu cadernid personol a chymunedol
AB 4 - Annog cyfranogiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi mewn penderfyniadau ar y cyd am eu hiechyd a'u gofal eu hunain ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaethau ehangach er mwyn i ni, gyda'n partneriaid, gyflenwi deilliannau sydd fwyaf pwysig i bobl.	AB 5 - Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o ddefnydd effeithlon o adnoddau GIG i sicrhau deilliannau wedi'u trefnu ar gyfer gwasanaethau a chleifion, drwy gyfathrebu, systemau monitro ac olrhain rhagorol ym mhob maes clinigol.	AB 6 - Hyrwyddo gweithlu amrywiol sy'n gallu mynegi eu hetifeddiath diwylliannol gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
AB 7 - Datblygu ein staff i fod y gorau y gallan nhw fod gyda lefelau uchel o les cyflogai ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hybu gyrfaedd GIG a darparu cyfleoedd profiad gwirfoddol a gwaith.	AB 8 - Lleihau ein heffaith amgylcheddol negyddol drwy raglen creu cyfalaf gyfrifol ac ymagwedd cynaliadwy at ddarparu gwasanaethau adeiladu gan gynnwys: rheoli carbon a gwastraff, caffael ar sail costau cylch oes cyfan ffynonellau lleol, hybu teithio cynaliadwy ac actif a gwelliannau mewn iechyd amgylcheddol.	AB 9 - Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch o atal i driniaeth, adsefydlu ac adfer sy'n cyflawni anghenion presennol a dyfodol a delio ag anghyfartaleddau iechyd a lefelau gwahanol angen ar draws ein cymunedau.
	AB 10 - Parhau i integreiddio ein camau gweithredu gyda phartneriaid ehangach yn y sector cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau system gyfan symlach ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rheini y maent yn eu cefnogi.	

Cytunwyd ar amcanion lles y Bwrdd Iechyd drwy drafodaeth fewnol gyda Staff a thrafodaeth ehangach gyda budd-ddeiliaid eraill yn gynnar yn ystod 2017. Fodd bynnag, i sicrhau eu bod yn rhai cywir o hyd i'r Bwrdd Iechyd, byddan nhw'n cael eu hadolygu cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Mae wedi sefydlu fframwaith i ddangos sut gall y Bwrdd Iechyd barhau i weithio gyda'i bartneriaid.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlodd y WBFGA Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob un o'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent wedi nodi, cytuno ar ac wedi mabwysiadu cyfres o amcanion Lles ac wedi datblygu cynllun Lles mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r cynlluniau Lles PSB hyn yn canolbwyntio ar gyflenwi dyletswydd i wella lles Economaidd, Amgylcheddol, Cymdeithasol a Diwylliannol ar draws pob un o'r pum ardal PSB. Mae'r ymagwedd cydweithiol hyn tuag at gyflawni blaenoriaethau Gofal Iechyd ar draws Gwent hefyd yn floc adeiladu allweddol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent sydd wedi'i sefydlu o dan ddarn arall o ddeddfu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014.

Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r Ddeddf i gyflawni gofal iechyd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol yng Ngwent?

Rydyn ni'n sicrhau bod y Ddeddf yn ganolog i'n rhaglen trawsnewid Dyfodol Clinigol. Strategaeth trawsnewid y Bwrdd Iechyd yw Dyfodol Clinigol, ac mae'n gatalydd ar gyfer gweithredu'r Ddeddf.

Ar draws yr is-ranbarthau, mae gweithgaredd trawsnewidiol ar y gweill o fewn y rhaglen Dyfodol Clinigol sy'n ymgorffori llunio, ailfodelu a thrawsnewid gwasanaethau. Fel rhan o'r egwyddorion llunio a gytunwyd gan Fwrdd Cyflawni Dyfodol Clinigol, mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ymhlyg.

Mae'r prif amcanion trawsnewidiol hefyd yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy ac maen nhw wedi'u halinio i amcanion lles y Bwrdd Iechyd y cytunwyd arnyn nhw:

- Cyflenwi mwy o ofal yn nes i'r cartrefi o fewn gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned;
- Gwellu profiad y claf; a
- Chreu system ofal gynaliadwy.

Dim ond drwy gydweithio agos ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus ac mewn partneriaeth gyda chleifion, eu

gofalwyr a dinasyddion, y gellir llwyr wireddu'r uchelgais hon. Mae bod yn gyson a phenderfynol i fewnosod dulliau gwaith ar sail integreiddio, cydweithio, tymor hir, cyfranogiad ac atal yn hanfodol i lwyddiant Dyfodol Clinigol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i staff i'w helpu i ddeall y newidiadau positif y gellir eu gwneud drwy gymhwyso'r Ddeddf i'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Mae canllaw WBFGA Llywodraeth Cymru'n amlygu saith maes craidd y Bwrdd Iechyd fydd yn achosi'r newid sydd ei angen gan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys: Corfforaethol, Cyllid a Chynllunio Gweithlu, Rheoli Risg a Pherfformiad, Asedau a Chaffael.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o dreiglo ei broses Hunanasesu WBFGA sy'n canolbwyntio ar nifer o'r meysydd craidd newid hyn. Yn ystod 2017/18, roedd cam cyntaf yr Hunanasesu'n canolbwyntio ar rai o swyddogaethau galluogi allweddol y Bwrdd Iechyd fel Cyllid, Datblygu Gweithlu a Chyfundrefnol, Cynllunio a Chyfleusterau. Prif amcanion y broses hon oedd i bob Is-adran/ swyddogaeth ddatblygu cyfres o naratifau uchelgais o gwmpas y pum dull o weithio ac i'r rhain wedyn lunio sut bydd yr Is-adrannau/ swyddogaethau'n cyflawni'r newid angenrheidiol i gyflawni uchelgais tymor hir y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da gyda Cham dau o'r Hunanasesiad gyda chynllun y bydd y Bwrdd Iechyd i gyd wedi bod drwy'r broses erbyn diwedd 2019/20. Mae ymagwedd positif y Bwrdd Iechyd tuag at ddefnyddio'r Broses Hunanasesu i fewnosod y Ddeddf hefyd wedi cael ei gydnabod a'i gynnwys fel astudiaeth achos o fewn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Edrych yn ôl ar y Flwyddyn Gyntaf: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb I Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Mai 2018". Rydym yn cymryd nifer o gamau positif sy'n dangos bod egwyddorion y Ddeddf yn cael eu mewnosod yn yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud.

I barhau â'i gynnydd da i gyflawni gobeithion y Ddeddf, beth mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei wneud nesaf?

Dyma'r flwyddyn gyntaf i adrodd am gynnydd yn erbyn Amcanion Lles y Bwrdd Iechyd ac mae'r dull o adrodd a monitro yn dal i ddatblygu i gyflawni'r gofynion newydd hyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd positif wrth gyflawni yn erbyn ei ddeg amcan Lles ac mae nifer o enghreifftiau o gamau/ weithgareddau sydd wedi'u cymryd ar draws yr Is-adrannau a swyddogaethau galluogi i ddangos hyn yn glir.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau ar ei siwrne i fewnosod y Ddeddf yn llawn i mewn i'r hyn y mae'n ei gyflawni. Mae adroddiadau cenedlaethol diweddar ar gynnydd y flwyddyn gyntaf y Ddeddf gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlygu'r cyfleoedd a'r heriau i

gyrraedd y lefel o newid trawsnewidiol sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac yn benodol bod gwneud pethau'n wahanol yn anodd ac yn cymryd amser. Tra bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd dull rhagweithiol i fewnosod egwyddorion y Ddeddf yn y modd y mae'n cynllunio, dylunio a chyflenwi ei wasanaethau, mae'n cydnabod bod llawer iawn mwy eto i'w wneud. Mae'r Ddeddf yn dal i fod yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd a dros y 18 mis nesaf mae nifer o gamau fydd yn ei alluogi ymhellach i barhau i gyflenwi yn erbyn gobeithion y Ddeddf, mewnosod y pum dull gweithio ar draws ei swyddogaethau a dangos cynnydd yn erbyn ei amcanion lles.

Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau, fel sefydliad, i ddatblygu ein gwelliannau a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i gynnal ein busnes yn agored ac i ddarparu gwybodaeth yn gyhoeddus ar ein perfformiad.

Byddwn yn dal i gyhoeddi gwybodaeth am ein gwasanaethau i roi sicrwydd i'n dinasyddion a'n budd-ddeiliad bod ein gwasanaethau'n effeithiol, effeithlon, priodol ac wedi'u cynllunio i ateb eu gofynion a'u disgwyliadau.

Ein deg maes blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf (2018/19) yw:

1. Cynyddu ymgysylltu a gwella lles ein staff.
2. Helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu, yn arbennig yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.
3. Canolbwyntio ar ofal arloesol y tu allan i ysbyty, gan weithio gyda'n partneriaid.
4. Cyflawni gofynion ein cleifion iechyd meddwl gan eu cefnogi'n nes i'w cartrefi.
5. Datblygu ein gwasanaethau iechyd meddwl a lles i blant.
6. Rhyddhau pobl o ysbytai ar y cyfle cyntaf gan barhau i ofalu amdany'n nhw fel cleifion allanol neu yn y gymuned.
7. Ail-lunio ein system gofal heb ei drefnu i arbed unrhyw un rhag gorfod aros mwy na 12 awr yn ein hadrannau D&A.
8. Gwella effeithlonrwydd ein hadrannau Cleifion Allanol a Theatrau Llawfeddygaeth i gyflawni prif flaenoriaethau'r Gofal Wedi'i Drefnu Cenedlaethol.
9. Datblygu gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer gofal llygaid ar draws y Bwrdd Iechyd.
10. Ail-lunio 33 model clinigol fel rhan o'n rhaglen Dyfodol Glinigol gan ddefnyddio trawsnewid gwasanaethau Cyhyrolysgerbydol fel esiampl.

Dolenni defnyddiol

Gobeithio i chi gael yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol. Drwy gydol yr adroddiad, rydyn ni wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am y flwyddyn 2017/18, gan gynnwys:

- **Datganiad Ansawdd Blynyddol 2017/18**
- **Adroddiad Atebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blynyddol a Chyfrifon Ariannol 2017/18**

Gellir gweld yr adroddiadau hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Y Pencadlys
Ysbyty Sant Cadog
Ffordd y Lodge
Caerllion
Casnewydd
NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk